



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---

# Adroddiad Blynyddol

## 2013-14

### **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg wedi eu paratoi yn unol ag Atodlen 1, Paragraff 19(1) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 am y flwyddyn i 31 Mawrth 2014, ynghyd â Thystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y cyfrifon hynny.

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cynulliad ar 16 Gorffennaf 2014 yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Atodlen 1, Paragraff 19 (2)

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## Cynnwys

### Tudalen

Rhagair	1
Nod, gweledigaeth a gwerthoedd	3
Gweithgareddau Comisiynydd y Gymraeg 2013–14	4
Rhaglen waith Comisiynydd y Gymraeg 2014–15	23
Cyd-destun y Gymraeg 2013–14	25
Cyfrifon	30
Atodiad	67

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## Rhagair

Wrth gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2012–13 fe ddywedais y byddwn yn symud i'n hail flwyddyn yn hyderus ac yn barod i weithredu'n rhagweithiol er mwyn cryfhau'r Gymraeg. Wrth ddod at y gwaith o gasglu enghreifftiau ar gyfer yr adroddiad hwn ac wrth edrych ar ein taith fel sefydliad dros y 12 mis diwethaf, mae'n destun balchder i mi cymaint o waith sydd wedi ei wneud i wireddu'r datganiad. Serch hynny, mae heriau sylweddol o hyd o ran tynnu'r Gymraeg o ymylon y broses ddeddfu a gwneud penderfyniadau polisi yng Nghymru ac yn San Steffan, ac i sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Prif weithgarwch blwyddyn gyntaf ein bodolaeth oedd dehongli a deall potensial y ddeddfwriaeth newydd a sefydlu ein hunain fel sefydliad. Yn ein hail flwyddyn profwyd ffrwyth y llafur hwnnw, gwelwyd y momentwm yn cynyddu a chymerwyd camau breision o ran sicrhau statws y Gymraeg a hawliau i bobl Cymru.

Yr enghraifft amlycaf lle defnyddiwyd grym y gyfraith i sicrhau statws y Gymraeg oedd yr adolygiad barnwrol a ddygwyd yn erbyn Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol. Roeddwn i'n ymwybodol mai dyma'r tro cyntaf erioed i achos o'r fath gael ei glywed mewn Uchel Lys a'n bod ni'n creu hanes yn hyn o beth. Dyfarnodd y barnwyr fod Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol wedi gweithredu'n anghyfreithlon trwy ddiddymu eu gwasanaethau Cymraeg. Felly, er bod y penderfyniad i wneud cais am adolygiad barnwrol wedi bod yn heriol, fe roddodd neges gref i bobl Cymru bod y gyfraith yn gallu sicrhau hawliau siaradwyr Cymraeg, ac i adrannau Llywodraeth San Steffan na allant yn fympwyol benderfynu diddymu gwasanaethau Cymraeg. Chwaraeodd cwynion gan y cyhoedd ran bwysig yn y penderfyniad i herio yn y modd hwn. Rwy'n croesawu rhagor o gwynion lle mae modd herio sefyllfaoedd annerbyniol a sicrhau cyfiawnder i bobl Cymru.

Symudodd yr agenda yn ei blaen o ran gosod safonau mewn perthynas â'r Gymraeg ar sefydliadau yng Nghymru. Dechreuwyd ar broses cynnal yr ymchwiliadau safonau cyntaf ar 27 Ionawr 2014. Er mwyn hwyluso'r broses a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ac i sefydliadau, cyhoeddwyd rhestr ar gyfer cylchoedd 2 a 3 y rhaglen cynnal ymchwiliadau safonau; ac rydym yn barod i ddechrau ar yr ymchwiliadau safonau gyda'r ail gylch o sefydliadau ym mis Medi eleni. Mae'n destun pryder, fodd bynnag, nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi pa bryd y bwriedir neilltuo amser ar lawr y Senedd i ddelio â'r rheoliadau ar gyfer gwneud safonau'n benodol gymwys i sefydliadau cylchoedd 2 a 3. Mae angen eglurder ar yr amserlen hon yn fuan er mwyn sicrhau bod y broses o gyflwyno'r gyfundrefn safonau'n digwydd mor gyflym ac mor llyfn â phosibl – cyn diwedd tymor y pedwerydd Cynulliad.

Elfen bwysig o'n gwaith nad yw'n weledol i'r cyhoedd bob amser, yw'r gwaith a wneir o ddylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth. Un o'm hamcanion yw gweld y Gymraeg wrth galon polisi. Er bod llawer mwy o waith i'w wneud o ran sicrhau bod y Llywodraeth yn prif-ffrydio'r Gymraeg ar draws ei hadrannau ac yn gosod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog yn ei hamryw strategaethau, polisiâu a deddfwriaeth, fe welsom y gwaith yn dechrau dwyn ffrwyth eleni. Yn dilyn pwysau cyson gan swyddfa'r Comisiynydd, cafodd y Gymraeg ei chynnwys ar wyneb y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Byddwn yn parhau i roi pwysau ar lywodraethau i gynnwys y Gymraeg mewn datblygiadau polisi. Byddwn yn mynd ati'n benodol hefyd i sicrhau mai cynnydd ac nid

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

camu'n ôl sy'n digwydd o ran darpariaeth Gymraeg mewn meysydd sydd heb eu datganoli, fel cyfiawnder a phensiynau.

Darn sylweddol o waith a wnaed yn ystod y flwyddyn oedd casglu tystiolaeth i'r ymholiad statudol i faes gofal sylfaenol. Bu'n broses gadarnhaol tu hwnt ac rydym wedi casglu tystiolaeth gyfoethog gan ddefnyddwyr y gwasanaeth yn ogystal â gan y prif chwaraewyr yn y sector iechyd, gan gynnwys y Gweinidog Iechyd, Mark Drakeford. Cyhoeddwyd adroddiad yr ymholiad ar 10 Mehefin 2014.

Nid dim ond y gwaith statudol sy'n bwysig wrth gwrs, ond y gwaith hwnnw o ddwyn perswâd, o roi cyngor ac o feithrin ewylllys da tuag at y Gymraeg ar lawr gwlad. Yn ystod y flwyddyn buom yn cynnal trafodaethau ac yn rhoi cyngor ymarferol i nifer helaeth o sefydliadau'r trydydd sector a'r sector preifat. Gwelwyd y gwaith hwn yn dwyn ffrwyth yn y gynhadledd a drefnwyd ar y cyd â Chwaraeon Cymru i drafod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ym maes chwaraeon, a'r sylwadau, y syniadau a'r camau gweithredu cadarnhaol a ddaeth yn sgil y gynhadledd.

Mae toriadau'n digwydd ym mhob agwedd ar fywyd cyhoeddus y dyddiau hyn, ac nid oedd disgwyl i Gomisiynydd y Gymraeg gael ei eithrio'n llwyr o hynny. Serch hynny, roedd y toriad o 10% yn ein cyllideb a gyhoeddwyd eleni yn doriad sylweddol iawn, yn enwedig felly i gorff ifanc sydd angen dygymod â grymoedd a dyletswyddau newydd. I gwrdd â'r her hon, ac i greu sefydliad sy'n abl i weithredu'r swyddogaethau newydd, aethpwyd drwy broses o ailstrwythuro mewnol, gan gynnig cynllun ymadael gwirfoddol i'r staff. Roedd y strwythur blaenorol yn un a etifeddwyd o gyfnod Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ac nid oedd yn addas i weithgareddau'r Comisiynydd. Hyderaf y bydd y strwythur newydd yn ein galluogi i weithio'n effeithiol er lles y Gymraeg a'i siaradwyr.

Cymeraf y cyfle hwn i ddiolch i'r Tîm Rheoli a'r holl swyddogion am eu dyncwch, eu brwdfrydedd a'u cwmniaeth gydol y flwyddyn. Rwy'n ddiolchgar hefyd i'r llu o unigolion hynny sydd wedi darparu cyngor, cefnogaeth ac arbenigedd – yn aelodau o'r Panel Cynghori, y Pwyllgor Archwilio a Risg ac o Banel yr Ymholiad Iechyd. Person arall y carwn estyn diolch iddo yw Seán Ó Cuirreáin a ymddiswyddodd o'i rôl fel An Coimisinéir Teanga (Comisiynydd Iaith Iwerddon) ym mis Rhagfyr. Fel un o sylfaenwyr Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith bu'n hael wrth rannu ei brofiadau am sut i ddiffinio hawliau ieithyddol, a bu'n glust i droi ato sawl tro yn ystod fy nyddiau cynnar yn y swydd.

Wrth symud ymlaen i'n trydedd flwyddyn o weithredu, fe wnawn hynny gyda'r hyder ein bod eisoes wedi sicrhau bod penderfyniad i ddiystyru'r Gymraeg wedi cael ei wyrddio mewn Uchel Lys. Byddwn yn rhagweithiol yn ein rôl driphlyg o bwysu, herio a hybu er budd y Gymraeg ac er sicrhau hawliau ei siaradwyr.

Meri Huws

Comisiynydd y Gymraeg

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## Nod, gweledigaeth a gwerthoedd

### Nod

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth wneud hynny bydd y Comisiynydd yn ceisio cynyddu defnydd o'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau, a thrwy gyfleoedd eraill. Yn ogystal, bydd yn rhoi sylw i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a'r dyletswyddau statudol i ddefnyddio a chynnig gwasanaethau drwy'r Gymraeg drwy osod safonau.

Mae dwy egwyddor yn sail i'r gwaith, sef yr egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru ac y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae Cynllun Strategol Comisiynydd y Gymraeg 2013–15 yn egluro sut yn union y bwriedir gweithio tuag at gyflawni nod cyffredinol Comisiynydd y Gymraeg dros y ddwy flynedd nesaf.

### Gweledigaeth a gwerthoedd

Dros amser, dyhead Comisiynydd y Gymraeg yw gweld:

- Y Gymraeg wrth galon polisi yng Nghymru
- Defnydd o'r Gymraeg yn cynyddu
- Gwell profiad i ddefnyddwyr y Gymraeg yn sgil gwaith rheoleiddio
- Mynediad at gyfiawnder i unigolion mewn perthynas â'r Gymraeg
- Arloesi wrth hybu a hwyluso isadeiledd y Gymraeg.

Wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol a gwireddu camau cychwynnol y weledigaeth, bydd y Comisiynydd a'i swyddogion yn gweithredu ar sail gwerthoedd craidd.

Wrth ffurfio barn bydd yn gadarn gan roi sicrwydd i'r defnyddiwr. Bydd yn defnyddio pob cyfle i fod yn rhagweithiol ac i dorri tir newydd er mwyn ysgogi newid a gwella parhaus. Er mwyn cyfrannu at gynyddu defnydd o'r Gymraeg, bydd yn llais dros siaradwyr Cymraeg. I feithrin amgylchedd gweithio iach sy'n cefnogi ei weithwyr ac yn ceisio eu barn, ac er mwyn bod yn sefydliad sy'n dysgu o brofiad, bydd yn agored ac yn deg.

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## Gweithgareddau Comisiynydd y Gymraeg 2013–14

Mae Cynllun Strategol Comisiynydd y Gymraeg 2013–15 yn gosod seiliau gwaith a blaenoriaethau'r Comisiynydd.

Mae tudalennau 5 i 22 yr Adroddiad Blynyddol hwn yn adrodd ar yr hyn mae'r Comisiynydd wedi ei gyflawni mewn perthynas ag amcanion 1–4 y Cynllun Strategol. Mae'r Cyfrifon, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethiant, yn adrodd ar amcan 5 y Cynllun Strategol.

### Amcanion strategol:

1. Dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi
2. Gwrando ar farn a phryderon am y Gymraeg a cheisio sicrhau cyfiawnder i unigolion
3. Ehangu a chryfhau ymrwymadau iaith Gymraeg sefydliadau a gwella profiad siaradwyr Cymraeg
4. Hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg
5. Creu sefydliad iach a gweithredu'n briodol

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## Amcan strategol 1: Dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi

### Dylanwadu ar bolisi Llywodraeth yng Nghymru

#### Y Gymraeg ar wyneb Biliau

Defnyddiwyd y pŵer dan Adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i gyflwyno cyngor i'r Prif Weinidog ar sut y gall statws swyddogol y Gymraeg fod yn weithredol a chael effaith wirioneddol ar fywydau pobl yng Nghymru, drwy fod yn weledol a chanolog mewn deddfwriaeth. Mewn llythyr yn ymateb i'r cyngor hwn ar 17 Mawrth 2014, dywedodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru'n 'datblygu fframwaith i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn gynnar yn y broses o greu polisiau newydd [ac y] bydd biliau newydd, ac ymgynghoriadau cyhoeddus yn dod o dan gwmpas y drefn honno.'

Yn ogystal â chyflwyno'r cyngor ysgrifenedig hwn i'r Prif Weinidog, tynnodd y Comisiynydd sylw at y neges hon o brif-ffrydio'r Gymraeg i feysydd polisi yng nghynhadledd Cyfraith Cymru ar 11 Hydref 2013, yng nghynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yng Nghaeredin ar 8 Tachwedd 2013 ac mewn erthyglau a chyfweliadau ar y cyfryngau.

#### Cyfarfodydd strategol

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd â Gweinidogion Cymru mewn amrywiol feysydd polisi i drafod materion sy'n ymwneud yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol â'r Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd chwarterol â'r Prif Weinidog yn rhinwedd ei swyddogaeth o fod yn gyfrifol am y Gymraeg ar Gabinet Llywodraeth Cymru.

#### Ymateb i ymgynghoriadau

Yn ystod 2013–14 ymatebwyd i 46 ymgynghoriad gan amrywiol sefydliadau er mwyn dylanwadu ar effeithiau'r polisiau ar y Gymraeg. Mae'r ymatebion hyn wedi eu cyhoeddi ar wefan y Comisiynydd.

### Iechyd a gofal cymdeithasol

#### Ymholiad gofal sylfaenol

Ar 13 Mai 2013 lanswyd ymholiad statudol dan adran 7 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Dewiswyd y maes gofal sylfaenol gan mai'r gwasanaethau hyn, yn amlach na pheidio, yw man cychwyn y berthynas â'r gwasanaeth iechyd i'r rhan fwyaf o bobl. Cred y Comisiynydd fod angen i'r berthynas honno gychwyn â pharch at hunaniaeth ac urddas claf, a bod iaith yn rhan annatod o hynny.

Sefydlwyd panel o arbenigwyr i dderbyn a chraffu ar dystiolaeth ar gyfer yr ymholiad, ac i ddarparu cyngor ar gasgliadau ac argymhellion yr adroddiad terfynol. Cadeiriwyd y

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

panel gan Dr Peter Higgson, ac aelodau'r panel oedd Yr Athro Ceri Phillips, Dr Elin Royles a Dr Gareth Llewelyn.

Estynnwyd gwahoddiad i'r cyhoedd rannu gwybodaeth ynglŷn â'u profiadau o ddefnyddio'r Gymraeg o fewn gwasanaethau gofal sylfaenol. Aethpwyd ati i gasglu tystiolaeth drwy gynnal cyfres o 20 o ymweliadau cymunedol ar draws Cymru. Casglwyd tystiolaeth hefyd wyneb yn wyneb yn sioeau'r haf, ar-lein, trwy e-bost, ar y ffôn ac yn ysgrifenedig. Bu cwmni ymchwil yn cynnal arolwg meintiol o 1,000 o siaradwyr Cymraeg er mwyn rhoi sail ystadegol a ffeithiol i'r adroddiad.

Yn ogystal, bu'r panel yn casglu tystiolaeth gan gyrrff a rhanddeiliaid y sector iechyd. Gwnaed hyn drwy drefnu ymweliadau, sesiynau briffio, cyfarfodydd pwrpasol a hefyd drwy dderbyn tystiolaeth ysgrifenedig.

Cafodd adroddiad yr ymholiad ei gyhoeddi ar 10 Mehefin 2014. Yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyladwy i gynnwys yr adroddiad.

### Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

O dan Adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, darparwyd sylw ysgrifenedig i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â sut i gynnwys cyfeiriad at y Gymraeg yn y Bil.

Mynegodd y Comisiynydd bryder ynghylch diffyg cyfeiriadau uniongyrchol at y Gymraeg ar wyneb y Bil. Credai'r Comisiynydd y dylai diffiniad y Bil o 'lesiant' gynnwys yr angen i fod yn sensitif i anghenion ieithyddol y rhai sy'n defnyddio'r Gymraeg, yn arbennig yn achos plant. Awgrymwyd cyfres o welliannau i'r Bil a oedd yn ategu'r ymrwymadau a wnaeth y Llywodraeth eisoes mewn cysylltiad ag iechyd, gofal cymdeithasol a'r iaith Gymraeg. Ar 18 Mawrth 2014 pasiwyd gwelliant yn nodi'r camau y mae angen eu cymryd i ddarparu'r ystod a'r lefel o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Presgripsiynau a'r Gymraeg

Bu honiad ym mis Ionawr 2014 bod meddyginiaeth wedi ei gwrthod i glaf oherwydd bod y meddyg teulu wedi ysgrifennu'r presgripsiwn yn Gymraeg. Yn unol ag Adran 4 y Mesur, darparodd y Comisiynydd sylw ysgrifenedig i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi nad oes unrhyw beth mewn *deddfwriaeth* yn gorfodi cyfarwyddyd yn Saesneg nac ychwaith yn gwahardd cyfarwyddyd yn Gymraeg. Mae canllawiau'r DU, sef y British National Formulary (BNF) a'r National Institute for Health and Care Excellence (NICE), yn nodi 'directions should preferably be written in English'. Mae canllawiau Cymru, sef yr All Wales Prescription Writing Standards, yn nodi 'directions should be in English'. Argymhellodd y Comisiynydd y dylid diwygio'r canllawiau yng Nghymru ac yn y DU fel eu bod yn adlewyrchu statws swyddogol y Gymraeg.

Mewn ymateb i gyngor y Comisiynydd, cadarnhaodd y Gweinidog y bydd ei swyddogion yn ystyried:

- creu geirfa Gymraeg ar gyfer cyfarwyddiadau presgripsiynau



## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

- nodi'r fferyllfeydd sy'n gallu darparu gwasanaethau fferyllol drwy gyfrwng y Gymraeg
- ymchwilio i'r angen i fonitro nifer y fferyllwyr a thechnegwyr Cymraeg eu hiaith
- cytuno ag Ysgol Fferylliaeth Cymru ar drefn flynyddol i nodi nifer y myfyrwyr Cymraeg eu hiaith sy'n hyfforddi i fod yn fferyllwyr
- ymchwilio i ddarparu taflenni gwybodaeth i gleifion yn Gymraeg.

### Cynllunio gwlad a thref

#### Astudiaeth o bolisiau cynllunio

Yn ystod haf 2013 cynhaliodd y Comisiynydd astudiaeth i asesu i ba raddau y mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried o dan y gyfundrefn gynllunio bresennol. Anfonwyd llythyr at y 25 awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru yn ystod Mehefin 2013 yn gofyn tri chwestiwn:

- a oedd ganddynt ganllaw cynllunio atodol ar y Gymraeg
- a oeddynt wedi cynnal asesiad o effaith eu Cynllun Datblygu Lleol, neu Unedol, ar y Gymraeg
- a oeddynt wedi cynnal asesiad o effaith ceisiadau unigol ar y Gymraeg?

Yn ystod Awst a Medi 2013 ystyriwyd pa bolisiau ar y Gymraeg oedd yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau datblygu'r 25 awdurdod. Prif gasgliadau'r astudiaeth oedd:

- nad yw'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn gyson o dan y gyfundrefn gynllunio
- nad yw pob awdurdod cynllunio wedi ystyried y Gymraeg wrth lunio ei gynllun datblygu
- bod amrywiaeth ac anghysondeb yng nghynnwys a manylder y polisiau ar y Gymraeg mewn cynlluniau datblygu ac yn sgil hynny mae gwahaniaethau yn y drefn ar gyfer sut a phryd i gynnal asesiad effaith ieithyddol.

Yn ogystal, nid yw pob awdurdod wedi cyhoeddi canllaw cynllunio atodol i roi arweiniad pellach ar y polisi; ac roedd nifer yr asesiadau effaith ieithyddol a gynhaliwyd ar geisiadau cynllunio unigol yn isel yn y mwyafrif o awdurdodau.

#### Arolwg sgiliau iaith preswylwyr tai newydd a thai sydd wedi eu gwerthu

Cydweithiodd y Comisiynydd ag awdurdodau cynllunio Gwynedd, Ynys Môn a Pharc Cenedlaethol Eryri ar astudiaeth o sgiliau iaith Gymraeg preswylwyr tai newydd a thai sydd wedi eu gwerthu. Bwriedir i ganfyddiadau'r arolwg fod yn dystiolaeth ar gyfer asesiad ieithyddol Cynlluniau Datblygu Lleol arfaethedig yr awdurdodau hyn; a chyfrannu at wella'r ddealltwriaeth ynghylch effaith gwahanol ddatblygiadau adeiladu ar gymunedau Cymraeg.

#### Nodyn Cyngor Technegol 20

Yn ystod misoedd cyntaf 2013–14, galwodd y Comisiynydd ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol 20 diwygiedig ar fyrder (sef cyngor ar yr ystyriaeth a roddir i'r iaith Gymraeg wrth wneud penderfyniadau cynllunio). Pryder y Comisiynydd

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

oedd y gallai absenoldeb arweiniad eglur a chyfredol arwain at sefyllfa lle byddai'r Gymraeg yn cael ei hanwybyddu o fewn y gyfundrefn gynllunio lleol.

Wedi i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol 20 diwygiedig ar 9 Hydref 2013, ysgrifennwyd at y Gweinidog Tai ac Adfywio gan godi cyfres o gwestiynau yn ymwneud â beth fyddai'n digwydd yn y cyfnod hyd nes bod y 'canllaw ymarferol pellach' y cyfeiria'r Llywodraeth ato'n cael ei gyhoeddi a beth fyddai'n digwydd i'r Cynlluniau Datblygu Lleol sydd eisoes wedi eu mabwysiadu neu yn yr arfaeth. Nid oedd canllaw ymarferol pellach wedi ei gyhoeddi ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

### Bil Cynllunio

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Bil Cynllunio ar 4 Rhagfyr 2013. Nod y Bil, yn ôl Llywodraeth Cymru, yw 'gwella'r system gynllunio yng Nghymru'. Mewn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad ar y Bil ar 25 Chwefror 2014 dywedodd y Comisiynydd ei bod o'r farn bod y Bil yn gyfle unigryw i ddatrys sefyllfa lle nad oes gorfodaeth ar awdurdodau i asesu effaith ieithyddol eu cynlluniau datblygu.

Cynigiwyd pedwar gwelliant i'r Bil er mwyn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol i ystyried effaith eu cynlluniau datblygu ar y Gymraeg. Roedd y cyfnod o ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Bil Cynllunio'n parhau ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

### Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014–20: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru

Ymatebodd y Comisiynydd i'r ymgynghoriad 'Cymru a'r UE: Partneriaeth ar gyfer Swyddi a Thwf – cronfeydd strwythurol Ewropeaidd 2014–20 gyda chynigion ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru'.

Yn yr ymateb nododd y Comisiynydd:

- fod y Gymraeg wedi ei chynnwys yn yr ymdriniaeth o themâu trawsbynciol
- bod 'cefnogi cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg a'r defnydd ohoni' yn amcanion cydraddoldeb allweddol i Gymru
- bod bwriad i edrych ar ffyrdd o brif-ffrydio materion ieithyddol i'r rhaglenni ariannu, gan gynnwys yr angen i gynnwys amodau priodol o ran defnyddio'r Gymraeg wrth ddyfarnu arian
- bod bwriad i ystyried a all Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ategu datblygiad economaidd mewn ardaloedd lle mae lefelau siaradwyr Cymraeg yn lleihau
- pryder na welwyd ymdriniaeth ehangach o anghenion y Gymraeg yn y dogfennau ymgynghori yn arbennig wrth drafod rhoi'r strategaeth themâu trawsbynciol ar waith.

Gwnaethpwyd darn sylweddol o waith yn ymwneud â chynnig ymyriadau ieithyddol posibl i'w cyflwyno i raglenni ariannu Ewropeaidd 2014–20. Yn dilyn argymhellion y Comisiynydd, un o'r prif elfennau yn nogfen Llywodraeth Cymru ar Ddatblygu Gwledig Cymru 2014–20 yw hyrwyddo ymyriadau sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer yr iaith Gymraeg a datblygu economaidd ar y cyd.

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## Addysg

### Rheoliadau drafft Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2013

Ymysg y pwyntiau a wnaed gan y Comisiynydd yn yr ymateb i'r Rheoliadau drafft hyn oedd bod angen datganiad clir ynglŷn â pholisi cludiant yr awdurdod lleol yn y Cynlluniau Strategol. Nodwyd y dylai awdurdodau lleol ddatgan eu strategaeth i hybu mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â Mesur Teithio i Ddysgwyr (Cymru) 2008.

Yn sgil achosion pan ddaeth yn amlwg bod awdurdodau lleol yn bwriadu torri ar gludiant am ddim i addysg ôl-16, galwyd ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau brys er mwyn sicrhau na fydd awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau a fydd yn golygu bod llai o fyfyrwyr yn derbyn addysg Gymraeg o ganlyniad i bolisi cludiant.

### Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Yn dilyn pasio Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ymgynghori, paratoi a chyhoeddi Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Eu pwrpas yw dangos sut mae awdurdod lleol yn cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn ymateb i alw gan rieni.

Yn sgil is-reoliadau'r Ddeddf mae'n rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori â'r Comisiynydd wrth baratoi'r cynlluniau. Mae disgwyl i'r Comisiynydd ymateb i'r ymgynghoriad gan gyflwyno sylwadau ar ddigonolrwydd trefniadau i gynnal asesiad addysg cyfrwng Cymraeg a'r strategaeth a nodir i fynd i'r afael â chanfyddiadau posibl yr asesiad.

Ymatebodd y Comisiynydd i bob Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg rhwng Ionawr ac Ebrill 2014.

## Dylanwadu ar bolisi Llywodraeth Prydain

### Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru

Wrth gyflwyno tystiolaeth i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (y Comisiwn Silk), tynnwyd sylw gan y Comisiynydd at gyfreithiau sy'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac sy'n rhwystro'r cyhoedd yng Nghymru rhag defnyddio'r Gymraeg.

Nododd y Comisiynydd enghreifftiau o'r cyfreithiau hyn, sef:

- Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953 sy'n caniatáu cofrestru yn Saesneg neu'n ddwyieithog yng Nghymru ond nid yn Gymraeg yn unig.
- Rheoliadau Amlogi 2008 (Cymru a Lloegr) sy'n rhagnodi ffurflenni ar gyfer trefnu gwasanaeth amlogi. Rhagnodwyd ffurflenni Saesneg yn unig. Ni chaniateir defnyddio ffurflenni Cymraeg neu ddwyieithog.
- Rheoliadau Cofrestru Priodasau (Iaith Gymraeg) 1999 sy'n datgan bod modd cofrestru priodasau yn y Gymraeg, yn ogystal â'r Saesneg, ar yr amod bod y partion yn dewis gwneud hynny a bod y person sy'n cofrestru'r briodas yn deall ac ysgrifennu Cymraeg. Golyga hynny na chaniateir i bersonau gofrestru

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

priodasau yn Gymraeg ac yn Saesneg lle nad yw'r cofrestrwydd yn siarad Cymraeg.

Mae adran 12.2 y ddogfen 'Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau deddfwriaethol i gryfhau Cymru' (sef Rhan 2 adroddiad y Comisiwn Silk) a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014 yn defnyddio tystiolaeth y Comisiynydd ac yn nodi:

Credwn y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru adolygu pob un o'r meysydd a grybwyllwyd gan y Comisiynydd gyda golwg ar ddiwygio'r gyfraith i roi statws cyfartal i'r Gymraeg. Yn fwy cyffredinol, credwn y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru asesu'n systematig sut y defnyddir y Gymraeg ar draws y llywodraeth ac yna cadw golwg ar y sefyllfa'n barhaus.

### Bil Tryloywder Lobïo, Ymgyrchu Di-blaid a Gweinyddu Undebau Llafur

Roedd Rhan 2 y Bil yn ymwneud â rheoleiddio'n agosach y gwario a wneir yn ystod ymgyrch etholiadol gan rai nad ydynt yn sefyll mewn etholiad nac wedi eu cofrestru fel plaid wleidyddol. Pryderai'r Comisiynydd fod costau cyfieithu deunydd etholiadol yn dod o fewn y diffiniad hwnnw, ac y gallai'r cyfyngiadau gwariant gostyngol gael effaith andwyol ar y Gymraeg o ganlyniad.

Cynigiodd y Comisiynydd welliant i'r Bil a galw ar y Cymry sy'n aelodau o Dŷ'r Arglwyddi i ddwyn pwysau ar y Llywodraeth i ystyried yr effaith ar y Gymraeg. Cyflwynodd y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Morris o Aberafan KG, QC, y gwelliant, a chyhoeddodd y Llywodraeth ei bod yn cefnogi ysbryd y gwelliant ac y bydd yn diwygio'r Bil i adlewyrchu hynny.

### Dyfodol y Cyfrifiad

Mewn ymateb i ymgynghoriad y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ddyfodol y Cyfrifiad nododd y Comisiynydd y byddai rhoi'r gorau i gasglu ystadegau ar gyfer ardaloedd daearyddol bach a grwpiau bach o'r boblogaeth yn cael effaith negyddol ar ddealltwriaeth o sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Ar 27 Mawrth 2014 cyhoeddwyd y bydd y Cyfrifiad yn parhau yn 2021, ar-lein yn bennaf.

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

### Amcan strategol 2: Gwranddo ar farn a phryderon am y Gymraeg a cheisio sicrhau cyfiawnder i unigolion

#### Cwynion

Mae gan y Comisiynydd bwerau statudol o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i ymchwilio i gwynion am fethiannau gan sefydliadau cyhoeddus i weithredu eu cynlluniau iaith Gymraeg ac i ystyried achosion o ymyrraeth â rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg gydag eraill yng Nghymru. Bu'r cwynion a ddaeth i law gan y cyhoedd yn ffactor bwysig ym mhenderfyniad y Comisiynydd i ddwyn achos cyfreithiol yn erbyn Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol yn ystod y flwyddyn.

Er nad oes gan y Comisiynydd bwerau dros ddefnydd – neu ddiffyg defnydd – nifer o gwmnïau preifat a sefydliadau'r trydydd sector o'r Gymraeg, mae'n derbyn nifer o gwynion am sefydliadau o'r fath gyda golwg ar weithio gyda'r sefydliadau hyn i ddatrys cwynion ar ran unigolion.

Ystyriwyd 375 achosion lle roedd unigolion a sefydliadau yn teimlo bod ganddynt le i gwyno wrth y Comisiynydd am anawsterau neu broblemau yn deillio o geisio derbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn 2013–14.

Roedd y mwyafrif o'r cwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â methiannau posibl gan sefydliadau cyhoeddus i weithredu eu cynlluniau iaith Gymraeg statudol.

Datryswyd nifer helaeth o'r cwynion hyn trwy ddulliau anffurfiol, trwy drafod a chytuno ar gamau gwella gyda'r sefydliad dan sylw neu drwy gynghori'r achwynwyr i adrodd eu pryderon wrth y sefydliad er mwyn rhoi cyfle rhesymol iddo ystyried ac ymateb i'w cwyn. Un enghraifft o ddatrysiad o'r math hwn yw'r ymrwymiad gan fwrdd iechyd lleol i gynnal asesiad o fedrau yn y Gymraeg ar draws ei wasanaethau iechyd meddwl er mwyn sicrhau bod digon o siaradwyr Cymraeg ar gael i gynnal asesiadau dementia trwy gyfrwng yr iaith yn y dyfodol. Ceir crynodeb o'r achosion na lwyddwyd i'w datrys yn y modd hwn ac a arweiniodd at ymchwiliadau statudol ar dudalennau 17-19.

#### Dadansoddiad o'r cwynion

Er bod y Comisiynydd yn derbyn ystod eang o gwynion, nid oes ganddi bwerau statudol i ddatrys pob un ohonynt. O'r 375 achos a ystyriwyd roedd 104 yn ymwneud â defnydd o'r Gymraeg gan gwmnïau preifat, sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau eraill, nad oes gan y Comisiynydd awdurdod drostynt. Roedd 72 yn ymwneud â chyrrff y Goron, sef Adrannau Llywodraeth y DU a'u hasiantaethau.

Yn ogystal â hynny, mae adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn diffinio cwyn statudol fel un sydd:

- wedi ei chyflwyno yn ysgrifenedig gan berson sy'n honni bod methiant gan gorff cyhoeddus i gyflawni ei gynllun iaith wedi effeithio'n uniongyrchol arno
- wedi ei gwneud i'r Comisiynydd o fewn deuddeg mis o ddyddiad y methiant; ac
- wedi ei chyfeirio at sylw'r corff cyhoeddus y cwynid amdano er mwyn rhoi cyfle rhesymol iddo ystyried ac ymateb.

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

Ceir tabl yn nodi pob cwyn a ddaeth i law yn yr Atodiad i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Fel y gwelir o'r tabl nesaf, roedd llawer o achosion a gyflwynwyd nad oeddent yn cydymffurfio â'r diffiniad statudol o gŵyn a nodir uchod. Mae gan y Comisiynydd, serch hynny, ddisgresiwn o dan Adran 17 y Ddeddf i gynnal ymchwiliad statudol i fethiant gan gorff cyhoeddus i gyflawni ei gyllun iaith ar sail cwyn neu fel arall.

### Cwynion yn ôl statws cyfreithiol

	Nifer
Cwynion dilys yn erbyn cyrff cyhoeddus am achos o dorri cynllun iaith Gymraeg statudol ac yn cwrdd â meini prawf adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg.	39
Cwynion dilys yn erbyn cyrff cyhoeddus am achos o dorri cynllun iaith Gymraeg statudol ond heb fod yn cwrdd â meini prawf adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg.	139
Cwynion dilys yn erbyn cyrff y Goron am achos o dorri cynllun iaith Gymraeg statudol ac yn cwrdd â meini prawf adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg.	19
Cwynion dilys yn erbyn cyrff y Goron am achos o dorri cynllun iaith Gymraeg statudol ond heb fod yn cwrdd â meini prawf adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg.	65
Cwynion yn ymwneud â rhan 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, (Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg).	4
Achosion nad ydynt yn syrthio o fewn cwmpas unrhyw ddiffiniad statudol o gŵyn.	109

### Cwynion a dderbyniwyd yn ôl sector

	Nifer
Cyhoeddus	174
Preifat	84
Cyrff y Goron	88
Preifat dan ddyletswydd statudol	9
Trydydd	8
Arall	12

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

O ran y cwynion am sefydliadau cyhoeddus, roedd nifer sylweddol yn ymwneud â methiannau honedig gan awdurdodau lleol i gydymffurfio â'u cynlluniau iaith.

### Cwynion statudol yn ôl categori

	Nifer
Gohebiaeth	88
Cyhoeddiadau	53
Gwefannau	49
Arwyddion	44
Gwasanaeth ffôn	35
Cyfarfodydd wyneb yn wyneb	28
Ffurflenni	22
Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg	4
Arall	52

### Ymchwiliadau statudol dan Adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Mae gan y Comisiynydd y grym cyfreithiol i gynnal ymchwiliad statudol i fethiannau honedig gan sefydliadau cyhoeddus i gydymffurfio â gofynion eu cynlluniau iaith Gymraeg. Cwblhaodd y Comisiynydd ddau ymchwiliad statudol yn ystod y flwyddyn, ar ôl derbyn cwynion gan aelodau o'r cyhoedd. Adroddir ar yr ymchwiliadau statudol hyn ar dudalen 17 yr Adroddiad Blynyddol.

### Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

Noda Rhan 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011:

Caiff unigolyn (P) wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn i'r Comisiynydd ymchwilio i a yw person (D) wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg ag unigolyn arall (R).

Cyflwynwyd pedwar cais perthnasol i'r Comisiynydd yn ystod 2013-14. Nid oedd tri o'r ceisiadau'n cydymffurfio â gofynion adrannau 111 ac 112 y Mesur ac felly nid oedd modd i'r Comisiynydd eu hystyried. Roedd yr ymchwiliad i'r pedwerydd cwyn yn parhau ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

### Adolygiad cwynion

Penderfynwyd cynnal adolygiad o drefn gwyno'r Comisiynydd er mwyn hwyluso'r drefn ar gyfer y cyhoedd. Comisiynwyd ymgynghorwyr allanol i edrych ar y drefn gwynion a darparu argymhellion ar gyfer ei datblygu. Hefyd, anfonwyd holiadur at achwynwyr yn gofyn eu barn am wasanaeth cwynion y Comisiynydd.

Bwriedir defnyddio argymhellion yr adolygiad a'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan achwynwyr i wella profiad unigolion o ddefnyddio'r gwasanaeth cwynion. Bydd gweithredu'r argymhellion yn rhan o raglen waith y Comisiynydd yn ystod 2014-15.



## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

### Amcan strategol 3: Ehangu a chryfhau ymrwymadau iaith Gymraeg sefydliadau a gwella profiad siaradwyr Gymraeg

#### Paratoi sefydliadau at weithdrefn safonau

Bu pwyslais yn ystod y flwyddyn ar baratoi sefydliadau ar gyfer cydymffurfio â safonau'n ymwneud â'r Gymraeg. Safonau yw'r fframwaith cyfreithiol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn cyflwyno dyletswydd ar rai sefydliadau i ddefnyddio a darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Bydd safonau'n disodli cynlluniau iaith maes o law. Bu swyddogion y Comisiynydd yn cyfathrebu'n gyson â sefydliadau yn y sector cyhoeddus er mwyn rheoli'r newid hwn o un gyfundrefn i'r llall. Mae gwaith wedi dechrau hefyd ar baratoi sefydliadau'r sector preifat a'r trydydd sector sy'n gymwys i orfod cydymffurfio â safonau yn y dyfodol.

#### Gweithredu Rhan 4 a 5 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Ymchwiliad safonau yw'r ymarferiad statudol lle mae'r Comisiynydd yn casglu tystiolaeth gan sefydliadau, y cyhoedd a'r Panel Cyngori ynghylch pa safonau ddylai sefydliadau gydymffurfio â nhw.

#### Rhaglen cynnal ymchwiliadau safonau

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei dogfen 'Safonau arfaethedig mewn perthynas â'r Gymraeg' ar 6 Ionawr 2014. Ar yr un diwrnod anfonodd y Comisiynydd hysbysiad rhagymchwilio ffurfiol at y 26 sefydliad sy'n cael eu cynnwys yng nghylch 1 y rhaglen cynnal ymchwiliad safonau, sef Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol Cymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru, yn datgan bwriad i gynnal ymchwiliad safonau. Dechreuodd cyfnod yr ymchwiliad safonau ar gyfer sefydliadau cylch 1 ar 27 Ionawr 2014.

Gofynnwyd i sefydliadau ddarparu tystiolaeth ffeithiol i'r ymchwiliad safonau trwy ymateb i holiadur ynglŷn â'r:

- gwasanaeth a gynigir gan y sefydliadau ar hyn o bryd
- strwythurau a'r prosesau sydd mewn lle
- unrhyw rwystrau i allu'r sefydliad i gyflenwi'r safon
- unrhyw wybodaeth bellach y mae'r sefydliad o'r farn y dylai'r Comisiynydd ei hystyried.

Hefyd cyhoeddwyd holiadur ar wefan y Comisiynydd er mwyn casglu tystiolaeth gan y cyhoedd am briodoldeb gosod safonau ar y 26 o sefydliadau yng nghylch 1.

Cyn dechrau ar y broses o gynnal ymchwiliad safonau, cynhaliodd y Comisiynydd gyfres o ddigwyddiadau briffio rhanbarthol i brif swyddogion a swyddogion iaith y 26 sefydliad er mwyn egluro'r broses.

Bwriad y Comisiynydd yw cynnal ail gylch o ymchwiliadau safonau ym mis Medi 2014 a symud ymlaen at drydydd cylch o ymchwiliadau fis Mai 2015. Bydd ymchwiliadau safonau cylchoedd 2 a 3 yn mynd i'r afael â sefydliadau yn y sector cyhoeddus ynghyd â rhai sefydliadau preifat a thrydydd sector. Ar 27 Ionawr 2014 cyhoeddodd y



## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

Comisiynydd restr lawn o'r sefydliadau yng nghylchoedd 2 a 3 ynghyd ag amserlen ar gyfer cynnal ymchwiliadau safonau mewn perthynas â hwy. Nod y Comisiynydd trwy gyhoeddi hyn oedd sicrhau bod yr wybodaeth am amserlen yr ymchwiliadau safonau ar gyfer y ddwy flynedd nesaf yn eglur i sefydliadau a'r cyhoedd. Gohebbodd y Comisiynydd yn uniongyrchol â'r sefydliadau a restrwyd er mwyn rhoi gwybodaeth bellach iddynt am y rhaglen waith. Ar 4 Chwefror 2014 ysgrifennodd y Comisiynydd at y Prif Weinidog yn gofyn a fyddai'n cyhoeddi amserlen ar gyfer llunio rheoliadau i gylchoedd 2 a 3 y rhaglen.

### Cynlluniau iaith dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

#### Cynlluniau iaith Gymraeg sy'n weithredol

Ar 31 Mawrth 2014 roedd 550 o gynlluniau iaith yn weithredol yn y sector cyhoeddus. Mae'r ffigur ar gyfer 2013–14 yn cynnwys 355 cynllun iaith gan sefydliadau cyhoeddus, 50 cynllun iaith gan sefydliadau addysgol, 41 cynllun iaith gan gyrff y Goron a phedwar gan gwmnïau preifat o dan ddyletswydd. Yn ogystal roedd 14 cynllun iaith yn weithredol gan sefydliadau cyhoeddus ar sail wirfoddol. Bu gostyngiad yn nifer y cynlluniau gweithredol ar draws sefydliadau addysgol o 63 yn 2012-13 i 50 cynllun iaith gweithredol ar ddiwedd 2013–14. Newidiadau strwythurol yn y sector sydd i gyfrif am hynny. Cynlluniau iaith gwirfoddol gan sefydliadau'r trydydd sector a'r sector preifat yw'r gweddill.

#### Cymeradwyo cynlluniau iaith

Cafodd 14 cynllun iaith Gymraeg eu cymeradwyo gan y Comisiynydd yn ystod 2013–14. Cymeradwywyd cynlluniau iaith newydd Coleg Gŵyr Abertawe, Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf, Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Gwasanaethau Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd a Chartrefi Castell-nedd Port Talbot. Cymeradwywyd 8 cynllun iaith diwygiedig gan y sefydliadau canlynol: Cyngor Sir Fynwy, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda, Prifysgolion Aberystwyth, Glyndŵr a Chaerdydd, y Rheoleiddiwr Pensiynau a'r Gronfa'r Loteri Fawr.

#### Gorolwg o weithrediad cynlluniau iaith

Ceir ymrwymiad mewn cynlluniau iaith i baratoi a chyflwyno adroddiad monitro. Hunanasesiad yw adroddiad monitro; ac mae'r Comisiynydd yn disgwyl i sefydliadau dystio eu bod yn cydymffurfio â'u cynlluniau iaith.

Arfer y Comisiynydd wrth ymateb i adroddiadau monitro cynlluniau iaith yw dwyn sylw at risgiau a dylanwadu ar berfformiad, a hynny er mwyn galluogi sefydliadau i gydymffurfio â'u hymrwymadau statudol.

Yn ystod 2013–2014 ymatebodd Comisiynydd y Gymraeg i 197 adroddiad monitro. Cyhoeddir pob ymateb ar wefan y Comisiynydd.

Cedwir gorolwg sector ar berfformiad er mwyn adnabod y prif feysydd lle mae angen gwella yn gyffredinol. Gwneir hyn drwy adroddiadau gorolwg neu drwy ddarparu sylwadau gorolwg i Swyddfa Archwilio Cymru.

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

Darparodd y Comisiynydd grynodedau i Swyddfa Archwilio Cymru ar weithrediad cynlluniau iaith awdurdodau lleol. O'r patrymau a amlygwyd yn yr adroddiadau monitro, adnabuwyd y prif flaenoriaethau canlynol ar gyfer cynlluniau iaith awdurdodau lleol:

- gwella'r dystiolaeth a'r data am sgiliau ieithyddol y gweithlu
- parhau i gynyddu a gwella cynnwys Cymraeg gwefannau
- sicrhau trefniadau llywodraethu a chraffu mewnol cadarn ar y cynllun iaith
- buddsoddi mewn hyfforddiant iaith Gymraeg.

Cyhoeddwyd adroddiad gorolwg ar weithrediad cynlluniau iaith Gymraeg byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG. Nododd yr adroddiad fod sawl corff yn parhau i gymryd camau cadarnhaol tuag at sicrhau eu bod yn cyflawni eu cynllun iaith. Fodd bynnag, nodwyd bod nifer o'r meysydd lle na welwyd cynnydd digonol yn gyffredin i nifer o'r cyrff. Y ddau faes oedd yn peri'r broblem fwyaf o ran cyflawni cynlluniau iaith oedd strategaeth sgiliau iaith a gwasanaethau a ddarperir gan eraill drwy gontract neu gytundeb.

Y prif flaenoriaethau a adnabuwyd ar gyfer sefydliadau addysg bellach ac uwch oedd eu bod angen cryfhau'u trefniadau monitro a'r asesiadau effaith er mwyn sicrhau eu bod yn adnabod ffactorau sy'n berthnasol i'r Gymraeg. Mae angen i sefydliadau gryfhau gwybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg eu staff, a gallu ystyried digonolrwydd y sgiliau hynny. Dylent gryfhau'r broses o annog myfyrwyr i ymgymryd â rhywfaint o'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Dylent hefyd gryfhau eu trefniadau ar gyfer casglu data am allu ieithyddol darpar fyfyrwyr ac annog myfyrwyr i barhau i ddatblygu eu sgiliau dwyieithog wrth astudio yn y coleg. Roedd y blaenoriaethau eraill i'r sector yn cynnwys cryfhau a chynyddu ansawdd cynnwys Cymraeg gwefannau corfforaethol a chydweithio mewn partneriaethau â sefydliadau addysgol eraill i ymestyn y ddarpariaeth Gymraeg a gynigir.

### Gwirio defnydd rhwydweithiau cymdeithasol gan sefydliadau cyhoeddus

Ochr yn ochr â'r gwaith o dderbyn adroddiadau monitro ac ymateb iddynt gwiriwyd defnydd rhai o'r sefydliadau hyn o rwydweithiau cymdeithasol. Edrychwyd ar drefniadau 30 o gyrff oedd yn cynnwys 22 Awdurdod Lleol, 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru a dau ddarparwr tai cymdeithasol sef Cartrefi Conwy a Thai Wales & West.

Dangosodd canfyddiadau'r ymarferiad fod 13% ohonynt yn cynnal cyfrifon rhwydweithiau cymdeithasol dwyieithog, 40% yn cynnal cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân a 47% yn cynnal cyfrifon uniaith Saesneg gydag ambell i neges Gymraeg yn ymddangos ar adegau. Bydd y Comisiynydd yn trafod defnydd y Gymraeg â sefydliadau unigol yn sgil cynnal yr ymarferiad hwn.

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## Ymchwiliadau statudol dan Adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Defnyddiwyd y pwerau i gynnal ymchwiliadau o dan adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar ddau achlysur yn ystod 2013–14 a gwnaed argymhellion statudol o dan adran 19 y Ddeddf honno. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliadau statudol mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarparwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Ofcom a Chynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol.

### Ymchwiliad statudol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Ar 20 Awst 2013 cyhoeddodd y Comisiynydd ei bod yn cynnal ymchwiliad yn dilyn cwynion gan y cyhoedd wedi i'r Gyngor lansio gwasanaeth ffôn newydd yn y sir yn Saesneg yn unig.

Ar 12 Tachwedd 2013 cyhoeddwyd adroddiad yr ymchwiliad. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y Gyngor wedi methu â chydymffurfio â chymalau yn ei Gynllun Iaith trwy:

- benderfynu lansio'r gwasanaeth yn uniaith Saesneg
- oedi cyn darparu gwasanaeth Cymraeg
- beidio ag ystyried na thrafod y gwasanaeth Cymraeg ar lefel uwch o fewn y Gyngor.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys cyfres o argymhellion i'r Gyngor er mwyn iddo adfer y sefyllfa a chydymffurfio â'i Gynllun Iaith yn y dyfodol:

- Yn dilyn lansio'r gwasanaeth ffôn Cymraeg, dylid sicrhau bod y gwasanaeth Cymraeg yn cael ei hyrwyddo a bod lefelau defnydd o'r gwasanaeth yn cael eu monitro
- Dylid cynnal adolygiad o drefniadau asesu effaith polisïau a mentrau newydd ar y Gymraeg
- Dylid adolygu'r Canllawiau Cydraddoldeb a Chaffael er mwyn sicrhau eu bod yn glir ac yn gadarn o ran ystyried y Gymraeg yn y broses tendro
- Dylid cymryd camau i godi ymwybyddiaeth y gweithlu o'r trefniadau diwygiedig
- Dylid sicrhau bod trefniadau goruchwyllo cadarn mewn lle i sicrhau gweithrediad effeithiol o Gynllun Iaith Gymraeg y Gyngor
- Dylid sicrhau bod adnoddau digonol ar gyfer darparu yn Gymraeg yn unol â'r Cynllun Iaith.

Gosodwyd amserlen benodol i'r Gyngor ar gyfer gweithredu'r argymhellion hyn.

### Ofcom

Mewn llythyr yn cyflwyno ei adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd eglurodd Ofcom eu bod yn anghytuno â chymal yn y cynllun iaith oedd yn ymwneud â diwygio canllawiau lleolrwydd. Yn sgil derbyn gwybodaeth bellach gan Ofcom roedd rhai amheuan ynghylch gweithrediad y cynllun, a phenderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad statudol i'r mater o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Rhodddwyd cyfle rhesymol i Ofcom gyflwyno gwybodaeth bellach mewn perthynas â'r cymal yn y cynllun iaith. Mewn gohebiaeth a dderbyniodd y Comisiynydd ar 20 Rhagfyr

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

2013, cydnabyddai Ofcom y byddai'n ddefnyddiol iddynt gyhoeddi esboniad ar yr ieithoedd y mae gorsafodded radio yn darlledu ynddynt, gan gyfeirio yn benodol at yr iaith Gymraeg. O ganlyniad, cynigodd Ofcom mai cyhoeddi set o ganllawiau gwahanol fyddai'r peth mwyaf priodol i'w wneud. I'r perwyl hwnnw, mae Ofcom wedi diwygio'r canllawiau ar fformatau radio ac wedi eu cyhoeddi ar eu gwefan.

Mae'r Comisiynydd yn fodlon bod y canllawiau fformat radio diwygiedig, ynghyd ag ymrwymiad Ofcom i'w rhaedru yn eang ymysg rhanddeiliaid perthnasol, yn cydymffurfio ag egwyddor cymal gwreiddiol cynllun iaith Gymraeg Ofcom. O ganlyniad, hysbyswyd y corff o benderfyniad y Comisiynydd i derfynu'r ymchwiliad Adran 17 i gynllun iaith Gymraeg Ofcom ar 27 Ionawr 2014.

[Adolygiadau Barnwrol dan Adran 8 Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011: Y Frenhines ar gais Comisiynydd y Gymraeg a Chynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru](#)

Ar 4 Chwefror 2013 derbyniodd y Comisiynydd lythyr gan Gynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol (CBC) yn nodi bwriad i roi terfyn ar ddarparu gwasanaethau Cymraeg ar 1 Ebrill 2014.

Ysgrifennwyd at CBC gyda'r troad i egluro nad oedd awdurdod cyfreithiol gan CBC i ddad-fabwysiadu'r cynllun. Ymatebodd CBC gan nodi nad oeddent am newid eu meddwl a'u bod am hysbysu eu cwsmeriaid bod y gwasanaethau Cymraeg yn dod i ben. Yn fuan wedi hyn, derbyniodd y Comisiynydd gwynion neu ymholiadau am y mater gan y cyhoedd.

Gofynnodd y Comisiynydd i Ysgrifennydd Gwladol Cymru drafod y mater â'r Gweinidog perthnasol. Mewn llythyr ar 15 Ebrill 2013 honnodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod gan Weinidogion y Goron yr hawl i ddad-fabwysiadu cynlluniau iaith y cyrff dan eu gofal unrhyw bryd y dymunant.

Ar 17 Mai 2013 ysgrifennodd Comisiynydd y Gymraeg at CBC i'w hysbysu ei bod yn bwriadu cynnal ymchwiliad statudol o dan adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 i gyflawniad y cynllun.

Yn adroddiad terfynol yr ymchwiliad, a anfonwyd at CBC ar 18 Mehefin 2013, daeth y Comisiynydd i'r casgliad bod CBC wedi methu â chyflawni eu cynllun iaith yn ei gyfanrwydd ac nad oedd awdurdod ganddynt i benderfynu dad-fabwysiadu'r cynllun. Gwnaed argymhellion i ailafael yng ngweithrediad y cynllun ar unwaith ac am gadarnhad o barodrwydd i ailafael yn y cynllun o fewn 5 diwrnod gwaith.

Wedi i CBC fethu â darparu ymateb boddhaol erbyn 28 Mehefin 2013 i gais y Comisiynydd yn gofyn am ddatganiad clir ynghylch a oedd yr adroddiad wedi newid eu meddwl ynglŷn â dad-fabwysiadu'r cynllun, anfonodd y Comisiynydd lythyr cyn-cyfreitha yn eu hysbysu bod y Comisiynydd yn gwneud cais am adolygiad barnwrol.

Cynhaliwyd yr adolygiad barnwrol yn yr Uchel Lys yng Nghaerdydd ar 19 Chwefror 2014.

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

Ar 7 Mawrth 2014 dyfarnodd Mr Ustus Hickenbottom ac Ei Anrhydedd y Barnwr Milwyn Jarman CF fod penderfyniad Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol i ddod â'u cynllun iaith i ben yn anghyfreithlon; ac fe ddiddymwyd y penderfyniad.

Dyma'r tro cyntaf erioed i achos yn ymwneud â gwasanaeth Cymraeg gael ei ystyried mewn adolygiad barnwrol; a'r achos hwn hefyd oedd y cyntaf erioed lle clywyd adolygiad barnwrol yn yr iaith Gymraeg.

### Gweithio gyda Swyddfa Cymru

Ar 3 Mawrth 2014 cychwynnodd un o swyddogion Comisiynydd y Gymraeg ar secondiad yn Swyddfa Cymru.

Gwaith y swyddog yw cynnal adolygiad llawn o'r graddau mae adrannau Whitehall yn cwrdd â'r gofynion deddfwriaethol cyfredol o ran y Gymraeg yn ogystal ag ystyried sut y byddant yn cwrdd â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a safonau mewn perthynas â'r Gymraeg.

Yn ogystal, mae'r Comisiynydd yn cwrdd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn chwarterol i drafod cydymffurfiaeth ag ymrwymadau cynlluniau iaith ac unrhyw bryderon am wasanaethau Cymraeg anfoddhaol neu gwynion a ddaeth i law gan y cyhoedd.

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

### Amcan strategol 4: Hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg

#### Cydweithio strategol â sectorau

Yn ystod y flwyddyn bu'r Comisiynydd yn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg gyda'r sefydliadau nad oes gofyniad statudol arnynt, ar hyn o bryd, i ddarparu gwasanaethau Cymraeg. Cafodd y gwaith hwn ei rannu rhwng dau dîm – y naill yn ymwneud â'r sector preifat a'r llall â'r trydydd sector.

Er mwyn gallu cyrraedd y nifer uchaf o fusnesau a sefydliadau â phosibl, bu'r Comisiynydd yn canolbwyntio ar gyfathrebu â chyrff cynrychioladol fel y CBI, Sefydliad y Cyfarwyddwyr, Ffederasiwn y Busnesau Bach, y Siambrau Masnach, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Cyngorau Gwirfoddol Sirol. Roedd yr ymwneud hwn yn digwydd ar ffurf cyfarfodydd rheolaidd, sesiynau briffio a chyflwyniadau.

Canlyniad uniongyrchol i'r cydweithio strategol hwn oedd cynnal cynhadledd 'Chwarae Teg i'r Gymraeg mewn Chwaraeon' ar y cyd â Chwaraeon Cymru ar 18 Mawrth 2014. Amcan y digwyddiad oedd ysbrydoli swyddogion sy'n gweithio ym maes chwaraeon i weld gwerth mewn cynyddu statws y Gymraeg o fewn eu sefydliad a chynyddu'r cyfleoedd i bobl, a phobl ifanc yn arbennig, i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon yn Gymraeg. Yn ystod y gynhadledd bu siaradwyr gwadd yn annerch y mynychwyr, cynhaliwyd sesiynau blasu hyfforddiant, rhoddwyd cyngor ymarferol a chafwyd cyfle i unigolion rwydweithio a rhannu syniadau.

Cynhaliwyd trafodaeth yn y Sioe Fawr ynglŷn â'r Gymraeg yng nghefn gwlad Cymru. Daethpwyd â gwahanol fudiadau at ei gilydd er mwyn gwneud y cyswllt rhwng yr economi wledig a'r Gymraeg. Rôl hwylusydd oedd i'r Comisiynydd yn y drafodaeth a threfnwyd cyfarfod dilynol yn y Ffair Aeaf i edrych ar brosiectau penodol a chyfleoedd i fudiadau gydweithio â'i gilydd.

#### Rhoi cyngor i'r sector preifat a'r trydydd sector

Ym mis Tachwedd 2013 sefydlwyd gwasanaeth rhanbarthol i gefnogi busnesau bach a chanolig i ddatblygu defnydd o'r Gymraeg. Yn rhan o'r gwasanaeth newydd, mae pedwar swyddog cynghori busnes yn gweithio'n uniongyrchol â busnesau ar draws Cymru trwy ddarparu cyngor arbenigol wyneb yn wyneb, nwyddau, a gwasanaethau. Adnoddau newydd a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn oedd llyfryn 'Y Gymraeg: Eich Busnes', sef canllaw i fusnesau sydd am ddatblygu defnydd o'r Gymraeg, a gwasanaeth prawffdarllen er mwyn galluogi sefydliadau i gynyddu eu sgiliau a'u hyder i ddefnyddio'r Gymraeg.

Datblygwyd y berthynas yn ogystal â'r cwmnïau mawr cenedlaethol a rhyng-genedlaethol. Blaenoriaethwyd datblygu defnydd o'r Gymraeg mewn banciau ac archfarchnadoedd, a chynhaliwyd cyfarfodydd â phrif swyddogion nifer o gwmnïau mawr megis Marks & Spencer, Admiral a'r Co-op. Yn dilyn achos lle honnwyd i fferyllydd yn Morrisons wrthod meddyginiaeth i glaf ar y sail bod y presgripsiwn wedi ei ysgrifennu yn Gymraeg (gweler tudalen 6), trefnwyd bod Prif Weithredwr Morrisons yn ymweld â swyddfa'r Comisiynydd yng Nghaerdydd i drafod yr achos a'r ffordd ymlaen i'r cwmni o ran adnabod a datblygu sgiliau dwyieithog ei staff yng Nghymru.



## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

Er mwyn rhoi ffocws i'r gwaith o hybu a hwyluso'r Gymraeg gyda'r trydydd sector ymgynghorwyd ar raglen waith, a chyhoeddwyd hi ar wefan y Comisiynydd. Hefyd, er mwyn sicrhau bod y sector yn deall sut i fynd ati i gynllunio, datblygu a darparu gwasanaethau Cymraeg cynhaliwyd cyfres o sesiynau hyfforddiant i sefydliadau trydydd sector ar draws Cymru. Yn rhan o'r hyfforddiant hwn roedd gofyn i sefydliadau baratoi cynllun gweithredu ar gyfer datblygu gwasanaethau dwyieithog.

Comisiynwyd ymchwil i'r maes gwirfoddoli yng Nghymru er mwyn sicrhau bod gwneuthurwyr polisi, arianwyr a darparwyr yn deall sut i ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg. Gwnaed cyfres o argymhellion er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau yn y ddarpariaeth bresennol a chynllunio ar gyfer cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd â Llywodraeth Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, sefydliadau llywodraethu chwaraeon a mudiadau ieuenctid i drafod yr ymchwil a'r argymhellion.

### Cyfieithu, terminoleg ac enwau lleoedd

Ariennir Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru gan y Comisiynydd i ymgymryd â chyfres o weithgareddau rheoleiddio penodol a fydd yn cryfhau statws proffesiynol cyfieithwyr Cymraeg/Saesneg. Mae'r Comisiynydd hefyd yn cydweithio â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod dull addas o achredu a rheoleiddio'r proffesiwn mewn lle.

Dangosodd ymchwil y Comisiynydd i faes terminoleg a geiriadura fod bylchau yn y modd y caiff y maes ei gynllunio a'i gydgyssylltu ar hyn o bryd. Er mwyn mynd i'r afael â hyn sefydlwyd panel o arianwyr a llunwyr polisi er mwyn rhoi cyfeiriad strategol i'r gwaith.

Er mwyn gweithredu'r cyfrifoldeb o argymhell ffurfiau safonol enwau lleoedd sefydlwyd Panel Safoni Enwau Lleoedd. Mae aelodau'r Panel yn arbenigwyr ym maes enwau lleoedd neu faes yr orgraff a byddant yn darparu cyngor arbenigol ac annibynnol i'r Comisiynydd ynghylch enwau lleoedd Cymru. Penderfynwyd ymestyn y cyfrifoldeb yn y maes hwn er mwyn cynnig cyngor ar ffurfiau safonol enwau cymunedau a wardiau etholiadol yn ogystal ag enwau dinasoedd, trefi a phentrefi. Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn cydnabod cyfrifoldeb ac arbenigedd y Comisiynydd yn y maes ac mae wedi penderfynu y bydd yn ymgynghori â'r Comisiynydd wrth gynnal adolygiadau o ardaloedd llywodraeth leol Cymru.

### Dadansoddi data'r Cyfrifiad

Mae gwaith y Comisiynydd yn cynnwys archwilio ffigurau Cyfrifiad 2011, ac mae nifer o fapiau a siartiau wedi eu cyhoeddi ar y wefan sy'n dangos ac yn dadansoddi'r data. Bydd y gwaith hwn yn sail i'r adroddiad 5-mllynedd ar sefyllfa'r Gymraeg y mae gofyn i'r Comisiynydd ei gyhoeddi yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## Cyfathrebu â'r cyhoedd

Roedd gan y Comisiynydd stondin yn Eisteddfod yr Urdd, y Sioe Fawr yn Llanelwedd a'r Eisteddfod Genedlaethol yn ystod haf 2013.

Cynhaliwyd pedwar cyfarfod cyhoeddus ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol, yn canolbwyntio ar rôl y Comisiynydd wedi blwyddyn o weithredu, y Gymraeg fel sgîl gwerthfawr i gyflogwyr, a'r iaith ym maes gofal iechyd sylfaenol.

Cynhaliwyd cyfarfodydd â chyrff sy'n cynrychioli gwahanol garfannau o'r cyhoedd yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau penodol ar hawliau a sgiliau gyda'r Ddraig Ffyni, cynulliad pobl ifanc Cymru; trafodaeth ar bontio rhwng y Gymraeg a'r amrywiol gymunedau gyda Chyngor Rhyng-Ffydd Cymru; yn ogystal â sesiynau trafod a rhannu gwybodaeth â mudiadau sy'n cynrychioli'r cyhoedd fel Merched y Wawr, Urdd Gobaith Cymru, Mentrau Iaith Cymru a'r Fforymau Iaith Sirol.

Yn ystod y flwyddyn, ymddangosodd 323 erthygl am y Comisiynydd yn y wasg brintiedig ac ar-lein. Cymerodd y Comisiynydd ran mewn 25 cyfweiliad radio a 22 cyfweiliad teledu yn ystod y flwyddyn.

Defnyddir y cyfrif trydar @ComyGymraeg i rannu gwybodaeth â dilynwyr ac i gyfathrebu â rhanddeiliaid allanol. Ar 31 Mawrth 2014 roedd gan y Comisiynydd 2,224 o ddilynwyr ar Twitter – cynnydd o 989 (80%) er 31 Mawrth 2013.

## Materion cyhoeddus

Mewn cyfarfod yn Nulyn ar 24 Mai 2013, daeth Comisiynydd y Gymraeg yn un o sylfaenwyr Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith. Mae'r aelodau eraill yn cynrychioli ieithoedd lleiafrifol yng Nghanada, Catalwnia, De Affrica, Iwerddon, Nunavut a Kosovo. Mae'r Gymdeithas yn fodd i'r Comisiynwyr drafod a rhannu syniadau a phrofiadau am sut gellir sicrhau hawliau siaradwyr ieithoedd brodorol ac ieithoedd lleiafrifol. Yn y gynhadledd flynyddol gyntaf ym Marcelona ym mis Mawrth 2014 cytunwyd mai Comisiynydd y Gymraeg fyddai'n darparu ysgrifenyddiaeth i'r gymdeithas am y ddwy flynedd nesaf. Hefyd pasiwyd mai yng Nghymru fydd cynhadledd flynyddol y Gymdeithas yn 2016.

Yn ogystal â'r cyfarfodydd chwarterol gyda Phrif Weinidog Cymru yn sgîl ei rôl fel Gweinidog â chyfrifoldeb am y Gymraeg, mae'r Comisiynydd hefyd yn cwrdd yn chwarterol â llefarwyr ar y Gymraeg y pleidiau yn y Cynulliad.

Ar 14 Tachwedd 2013 cyflwynodd y Comisiynydd dystiolaeth gerbron Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad. Roedd yn gyfle i Aelodau Cynulliad graffu ar Adroddiad Blynyddol 2012–13 ac ar waith y Comisiynydd yn ehangach. Ar 16 Hydref 2013 cynhaliwyd sesiwn trafod yn Nhŷ'r Arglwyddi, a rhoddwyd cyflwyniad am rôl a gwaith y Comisiynydd i'r Aelodau Seneddol ac aelodau Tŷ'r Arglwyddi oedd yn bresennol. Mae swyddogion y Comisiynydd yn aelodau o'r Grŵp Trawsbleidiol ar y Gymraeg yn y Cynulliad.



## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

### Rhaglen waith Comisiynydd y Gymraeg 2014-15

Mae'r Comisiynydd wedi llunio Cynllun Gweithredol ar gyfer 2014-15 sy'n seiliedig ar yr amcanion strategol yn y Cynllun Strategol 2013-15.

Mae gweithgareddau penodol wedi eu cynnwys o dan y gwahanol amcanion. Maent yn cynnwys y canlynol:

#### Amcan strategol 1: Dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg o fewn datblygiadau polisi

- Parhau â'r gwaith o gynnal Ymholiad Gofal Sylfaenol gan gyflwyno canfyddiadau ac argymhellion mewn adroddiad yn ystod haf 2014
- Paratoi ar gyfer gosod dyletswyddau statudol y safonau llunio polisi ar sefydliadau gan gynnwys paratoi methodoleg asesu effaith ieithyddol genedlaethol, cod ymarfer a gweithdrefnau monitro cysylltiedig
- Drwy swyddogaethau ymchwil ac addysgu'r Comisiynydd baratoi adroddiad yn amlinellu ymyriadau strategol i asio cynlluniau datblygu economaidd a thwf ieithyddol.

#### Amcan strategol 2: Gwrando ar farn a phryderon am y Gymraeg a cheisio sicrhau cyfiawnder i unigolion

- Adolygu'r drefn gwyno yn sgil argymhellion yr adroddiad annibynnol
- Codi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd a chyflogwyr ynglŷn ag ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg
- Cyhoeddi a chylchredeg yn eang nodyn cyngor ar hawliau ieithyddol plant yng Nghymru
- Cynhyrchu e-fwletin Comisiynydd y Gymraeg i'w ddosbarthu'n chwarterol i'r cyhoedd a rhanddeiliaid.

#### Amcan strategol 3: Ehangu a chryfhau ymrwymadau iaith Gymraeg sefydliadau a gwella profiad siaradwyr Cymraeg

- Cynnal ymchwiliadau safonau â'r sefydliadau a flaenoriaethir yng nghylchoedd 1 a 2 y rhaglen cynnal ymchwiliad safonau
- Cyhoeddi polisi gorfodi Comisiynydd y Gymraeg
- Cydweithio â Swyddfa Cymru gyda golwg ar ei galluogi i gydsynio i fod yn ddarostyngedig i safonau
- Gweithredu'r drefn cynlluniau iaith Gymraeg gan reoli newid wrth i rai sefydliadau symud o un gyfundrefn statudol i un arall; rheoli'r newid wrth i rai sefydliadau symud at weithredu'n ddwyieithog am y tro cyntaf ac wrth i eraill symud o weithredu ar sail wirfoddol i gyfundrefn statudol.

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

### Amcan strategol 4:Hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg

- Cynnal deialog ragweithiol â rhanddeiliaid trydydd sector a busnes, yn ogystal â gyda sefydliadau unigol ynglŷn â rôl y Comisiynydd
- Cynnal Arolwg Defnydd Iaith 2013–14 a 2014–15, ei ddadansoddi a chyhoeddi ei ganlyniadau
- Sefydlu Panel Cydgysylltu Safoni Termau a Geiriadura
- Cynnal y Panel Safoni Enwau Lleoedd ac ymateb i ymholiadau ynghylch ffurfiau safonol enwau lleoedd
- Cydweithio â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i'w gefnogi wrth ddatblygu prosiect astudiaethau cyfieithu cenedlaethol.

### Amcan strategol 5: Creu sefydliad iach a gweithredu'n briodol

- Datblygu a gwella trefniadau cyfathrebu'r sefydliad yn barhaus
- Arloesi trwy ddefnyddio technoleg i gynorthwyo swyddogion i gyflawni eu dyletswyddau ac i gyfathrebu â'i gilydd yn rhwydd o'r pedair swyddfa
- Datblygu a gweithredu trefniadau llywodraethu priodol mewn cydweithrediad â Phwyllgor Archwilio a Risg y Comisiynydd a'r archwilwyr mewnol
- Hyrwyddo diwylliant o wella parhaus ac ymchwilio i fodolau rhagori addas a pherthnasol i gryfhau'r cysyniad o gydraddoldeb, parch a chydabyddiaeth; sicrhau bod gan swyddogion y sgiliau angenrheidiol i gwrdd â gofynion y gwaith ac yn eu galluogi i gyfrannu at lwyddiant y Comisiynydd.

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

### Cyd-destun y Gymraeg 2013–14

Mae'n ofynnol i Gomisiynydd y Gymraeg, yn unol ag adran 18 (2) (b) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ddarparu adolygiad o faterion sy'n berthnasol i'r Gymraeg. Yn yr adran hon rhoddir sylw i ddatblygiadau a ddigwyddodd neu adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod 2013–14.

#### Y darlun ystadegol

Yn ystod 2013–14 cyhoeddwyd rhagor o ystadegau Cyfrifiad 2011. Mae nifer o siartiau a mapiau yn dangos gwahanol ystyriaethau iaith ystadegau'r Cyfrifiad i'w canfod ar wefan y Comisiynydd.

#### Dyfodol y Cyfrifiad

Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ymgynghoriad tri mis ar y Cyfrifiad a darpariaeth ystadegau poblogaeth Cymru a Lloegr yn y dyfodol ym mis Medi 2013. Ar 27 Mawrth 2013 cyhoeddwyd y bydd y Cyfrifiad yn parhau yn 2021, yn bennaf ar-lein.

#### Datblygiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Nid yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru na Chomisiwn y Cynulliad wedi eu henwi ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r Cynulliad yn gweithredu'n unol â Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012. Nod y Ddeddf honno yw gwneud y Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd swyddogol yn y Cynulliad a bod rhaid trin y ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal.

Yn sgil y Ddeddf ac er mwyn galluogi gweithredu'n ddwyieithog datblygodd y Cynulliad, ar y cyd â Microsoft, adnodd cyfieithu Microsoft Translator ar gyfer y Gymraeg. Lanswyd yr adnodd ar 21 Chwefror 2014.

#### Datblygiadau Llywodraeth Cymru

##### Cyfrifoldeb gweinidogol

Ar 25 Mehefin 2013 ymddiswyddodd Leighton Andrews AC o'i swydd yng Nghabinet Llywodraeth Cymru fel Gweinidog Addysg a Gweinidog â chyfrifoldeb am y Gymraeg. Y diwrnod canlynol, cyhoeddwyd newidiadau yn y cabinet. Cyhoeddwyd mai Huw Lewis AC fyddai'n cymryd cyfrifoldeb dros y portffolio addysg, tra byddai'r Prif Weinidog, Carwyn Jones AC, yn cymryd cyfrifoldeb dros y Gymraeg.

##### Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg

Ar 6 Ionawr 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen ymgynghorol 'Safonau Arfaethedig mewn perthynas â'r Gymraeg' ar ei gwefan. Y ddogfen hon oedd sail ymchwiliad safonau statudol Comisiynydd y Gymraeg er mwyn dod i ddyfarniad

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

ynghylch pa safonau, os o gwbl, ddylai fod yn benodol gymwys i sefydliadau. (Ceir rhagor o wybodaeth am broses ymchwiliad safonau'r Comisiynydd ar dudalen 14).

### Tribiwnlys y Gymraeg

Ar 23 Ionawr 2014 hysbysebodd Llywodraeth Cymru swydd cadeirydd Tribiwnlys y Gymraeg. Bydd aelodau eraill y Tribiwnlys yn cael eu penodi'n ddiweddarach yn 2014.

### Y Gynhadledd Fawr a datganiadau polisi

Mewn ymateb i ganlyniadau Cyfrifiad 2011, cynhaliodd Llywodraeth Cymru drafodaeth genedlaethol ar ddyfodol y Gymraeg; galwyd y drafodaeth hon yn 'Gynhadledd Fawr'. Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd lleol ar draws Cymru lle roedd cyfle i unigolion leisio barn am sut i gynyddu defnydd o'r Gymraeg, daeth y Gynhadledd Fawr i ben â chynhadledd undydd yn Aberystwyth ar 4 Gorffennaf 2013.

Ym mis Hydref 2013 cyhoeddwyd adroddiad yn rhoi gorolwg o ymatebion y cyfranogwyr. Ymysg y blaenoriaethau polisi a amlygwyd yn sylwadau'r cyhoedd oedd mudoedd, cynllunio, yr economi, marchnata'r iaith, addysg, a chynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mewn datganiad llafar yn y Senedd ar 12 Tachwedd 2013 dywedodd y Prif Weinidog y bydd llawer o'r camau y bydd y Llywodraeth yn eu cymryd mewn ymateb i sylwadau'r Gynhadledd Fawr yn seiliedig ar argymhellion adroddiadau annibynnol mae'r Llywodraeth wedi eu comisiynu yn ystod y flwyddyn.

### Argymhellion adroddiadau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru

#### Y Gymraeg fel ail iaith

Ar 27 Medi 2013 cyhoeddwyd adroddiad y grŵp oedd yn craffu ar ddysgu'r Gymraeg fel ail iaith, dan Gadeiryddiaeth Yr Athro Sioned Davies. Nododd adroddiad 'Un iaith i bawb: adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4' nad yw dysgu Gymraeg fel ail iaith yn effeithiol fel dull o annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Cynigia'r adroddiad 24 o argymhellion o ran gwella'r ddarpariaeth ail iaith. Mae'r argymhellion yn cynnwys:

- parhau i sicrhau bod Gymraeg ail iaith yn bwnc gorfodol mewn ysgolion hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 4
- hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil yn y gweithle
- gwella dilyniant addysg Gymraeg rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd
- defnyddio'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm
- sicrhau bod gan bob ysgol niferoedd digonol o staff â'r gallu i addysgu yn Gymraeg
- cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a chlywed y Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## Yr Eisteddfod Genedlaethol

Dan gadeiryddiaeth Roy Noble, gwnaeth y grŵp oedd yn adolygu'r Eisteddfod Genedlaethol 9 o argymhellion yn eu hadroddiad a gyhoeddwyd ar 24 Hydref 2013. Yn eu plith roedd:

- sicrhau bod yr Eisteddfod yn parhau'n ŵyl deithiol
- ehangu strategaeth farchnata'r Eisteddfod
- denu mwy o wirfoddolwyr ifanc
- datblygu strategaeth ddigidol
- cynyddu grant a chyfalaf yr Eisteddfod.

## Cymraeg i Oedolion

Dan gadeiryddiaeth Dr Haydn Edwards, cyhoeddwyd adroddiad 'Codi golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion' ar 2 Rhagfyr 2013. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod angen ailwampio'r ffordd caiff y Gymraeg ei dysgu i oedolion. Ymysg y 24 o argymhellion a wnaed yn yr adroddiad mae:

- sefydlu endid cenedlaethol i fod yn gyfrifol am roi arweiniad yn y maes
- datblygu a gweithredu strategaeth Cymraeg yn y gweithle
- hybu prosiectau Cymraeg i'r teulu
- creu partneriaethau â chymdeithasau Cymraeg er mwyn gwella profiadau dysgwyr
- buddsoddi yn y maes.

## Cymunedau Cymraeg

Cyhoeddwyd adroddiad 'Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith' ar 4 Rhagfyr 2013. Roedd y 7 argymhelliad a wnaed gan y grŵp, dan gadeiryddiaeth Dr Rhodri Llwyd Morgan, yn cynnwys:

- gwella effaith polisiâu'r Llywodraeth er mwyn hyrwyddo cynllunio rhanbarthol sy'n llesol o safbwynt y Gymraeg
- cysoni'r ddarpariaeth addysg yn siroedd y gorllewin er mwyn i bob disgybl ddod yn ddwyieithog
- ehangu gweithleoedd sy'n gweithredu'n fewnol yn ddwyieithog
- ehangu ar brosiectau sy'n cefnogi gweithgareddau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg.

## Llywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus

Ar 20 Ionawr 2014 cyhoeddwyd 'Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a darparu Gwasanaethau Cyhoeddus'. Cadeiriwyd y Comisiwn gan Syr Paul Williams. Gwnaeth y Comisiwn 62 o argymhellion ar sut i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, ac roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf ag uno cynghorau sir yng Nghymru. Un o ystyriaethau'r Comisiwn wrth lunio'r cynigion, yn ôl yr adroddiad, oedd y defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol ardaloedd.

## Mentrau iaith

Yn yr adroddiad 'Adolygiad o waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe' a gyhoeddwyd ar 30 Ionawr 2014 gwnaeth

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd a chwmni Sbectrwm 10 argymhelliad. Yn eu mysg roedd:

- sefydlu is-gynllun i strategaeth iaith fyw: iaith byw yn nodi blaenoriaethau ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg
- creu cytundeb rhwng yr holl asiantaethau sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru er mwyn cytuno ar gyfrifoldebau
- ariannu corff cydlynu'r mentrau iaith yn ganolog
- sefydlu rhagor o gynlluniau datblygu ardal
- estyn cylch ariannu sefydliadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg i 3-5 mlynedd
- adolygu'r dull o ariannu prosiectau hyrwyddo'r Gymraeg.

### Y Gymraeg a datblygu economaidd

Yn 'Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd' a gyhoeddwyd ar 21 Chwefror 2014 gwnaeth y grŵp, a gadeiriwyd gan Elin Rhys, 27 o argymhellion. Yn eu mysg roedd:

- hyrwyddo manteision y Gymraeg i fusnesau
- defnyddio cyllid priodol o Ewrop a Llywodraeth Cymru i annog datblygiad economaidd
- annog busnesau i ddefnyddio'r parth .cymru pan fydd ar gael
- ffurfio rhwydweithiau busnes Cymraeg
- rhoi cyfrifoldeb am ddatblygu economaidd i'r mentrau iaith
- ariannu prosiectau peilot ar gyfer adfywio economaidd
- gwella seilwaith trafnidiaeth a band llydan
- gwneud darpariaeth Gymraeg yn ofynnol yn nhendrau'r sector cyhoeddus
- gwneud darpariaeth Gymraeg yn ofynnol i fusnesau sy'n cael grantiau gan Lywodraeth Cymru.

### Datblygiadau Llywodraeth y DU

#### Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk)

Ar 3 Mawrth 2014, cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad ar Ran II ei gylch gwaith ar bwerau ehangach Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae adran 12.2 y ddogfen 'Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau deddfwriaethol i gryfhau Cymru' (sef Rhan II adroddiad y Comisiwn Silk) yn nodi:

Credwn y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru adolygu pob un o'r meysydd a grybwyllwyd gan y Comisiynydd gyda golwg ar ddiwygio'r gyfraith i roi statws cyfartal i'r Gymraeg. Yn fwy cyffredinol, credwn y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru asesu'n systematig sut y defnyddir y Gymraeg ar draws y Llywodraeth ac yna cadw golwg ar y sefyllfa'n barhaus.

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

### Adroddiad Pwyllgor Arbenigwyr Cyngor Ewrop ar y Siarter ar Ieithoedd Lleiafrifol a Rhanbarthol

Ym mis Ionawr 2014 cyhoeddwyd adroddiad Pwyllgor Arbenigwyr Cyngor Ewrop yn ymateb i dystiolaeth Llywodraeth Prydain ynglŷn â sut maent yn cyflawni eu hymrwymadau'n unol â'r Siarter.

Mae'r adroddiad yn nodi pryder nad yw Llywodraeth Prydain yn cymryd ei dyletswyddau na'i hymrwymadau o dan y gyfraith ryngwladol o ddifrif o safbwynt hybu ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol y DU. Dywed mai anghyson a thameidiog yw darpariaeth Gymraeg y Llywodraeth, gan mai dim ond rhai o gyrff y Goron sydd â chynlluniau iaith. Mae'n nodi pryderon yn ogystal am effaith y toriadau ar ieithoedd lleiafrifol ac am ansicrwydd y maes darlledu, a dyfodol S4C yn benodol. Mae adroddiad y Pwyllgor o Arbenigwyr yn cynnwys argymhellion y dylai awdurdodau'r DU fynd i'r afael â hwy mewn perthynas ag ieithoedd lleiafrifol a rhanbarthol y DU. Yr argymhellion sy'n berthnasol i'r Gymraeg yw:

- cymryd camau cadarn i ddatblygu ymhellach y defnydd o'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- sicrhau nad yw'r toriadau presennol mewn gwariant cyhoeddus yn cael effaith anghymesur ar amddiffyn a hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol.

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## Cyfrifon

### Tudalen

Crynodeb ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol	31
Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth	35
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	41
Datganiad Llywodraethiant Blynyddol	42
Tystysgrif Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru	50
Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr	52
Datganiad Sefyllfa Ariannol	53
Datganiad Llifoedd Arian	54
Datganiad Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr	55
Nodiadau'r Cyfrifon	56



## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

### Crynodeb ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol 2013-14

#### Canlyniadau a chyfeddiant

Corfforaeth undyn yw Comisiynydd y Gymraeg a ariennir gan Weinidogion Cymru. Cyfanswm y cyllid ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2013 hyd 31 Mawrth 2014 oedd £4,100,000 (2012-13: £4,100,000). Y gwariant net ar ôl llog yn ystod y flwyddyn oedd £4,343,000 (2012-13: £3,565,000), a'r gwariant ar gyfalaf oedd £40,000 (2012-13: £128,000). Ar 31 Mawrth 2014 roedd £611,000 yn y gronfa gyffredinol (31 Mawrth 2013: £854,000).

Caiff y Comisiynydd, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Adran 9, ddarparu cymorth i unigolyn mewn achos cyfreithiol gwirioneddol neu achos cyfreithiol posibl yng Nghymru a Lloegr sy'n berthnasol i fater y mae gan y Comisiynydd swyddogaeth mewn cysylltiad ag ef. Nid oes cyllideb wedi ei dyrannu gan Weinidogion Cymru ar gyfer y cymorth hwn. Yn dilyn trafodaethau penderfynwyd yn ystod y blynyddoedd cychwynnol y byddai'n briodol i Gomisiynydd y Gymraeg adeiladu cronfa wrth gefn o danwariant y gyllideb flynyddol.

#### Amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014–15

Mae'n ofynnol i Gomisiynydd y Gymraeg gyflwyno amcangyfrif i Weinidogion Cymru bob blwyddyn ariannol o incwm a gwariant y flwyddyn, a hynny o leiaf bum mis cyn cychwyn y flwyddyn ariannol. Cyflwynwyd amcangyfrif o £4.1 miliwn ar gyfer 2014-15 i Weinidogion Cymru ar 7 Hydref 2013. Gosodwyd yr amcangyfrif gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 27 Ionawr 2014 a dyrannwyd cyllideb o £3.69 miliwn ar gyfer 2014–15.

#### Cynllun ymadael gwirfoddol

Cyhoeddwyd cynllun ymadael gwirfoddol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 17 Chwefror 2014 yn unol â rheolau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil ac fel y'u cymeradwywyd gan Swyddfa'r Cabinet. Ceir rhagor o fanylion yn nodiadau 4 a 12 y cyfrifon.

Ar 16 Ebrill 2014, cychwynnodd Comisiynydd y Gymraeg ar gyfnod ymgynghori 30 diwrnod gyda swyddogion ar y strwythur arfaethedig. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 15 Mai 2014.

#### Rhwymedigaethau pensiwn

Telir i'r Tâl-feistr Cyffredinol symiau priodol i gynrychioli rhwymedigaethau cronedig Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ac yn nodiadau 1.7 a 4 y cyfrifon.

#### Tâl yr Archwilwyr Allanol

Ni wnaeth yr archwilwyr allanol ymgymryd â gwaith nad oedd yn waith archwilio yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014 (2012-13: £0).

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## Cydraddoldeb yn y gweithle

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gwrthwynebu'n llwyr unrhyw wahaniaethu ar ba bynnag sail. Wrth ddefnyddio arferion cyflogaeth teg a gwrthrychol, bydd y Comisiynydd yn sicrhau bod swyddogion yn cael eu trin yn deg a chyda pharch yn y gweithle, ac yn cael cyfle cyfartal i gyfrannu ac i gyflawni i'w potensial llawn.

## Cynllun cydraddoldeb

Mae'n ddyletswydd ar Gomisiynydd y Gymraeg dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i amlinellu ei amcanion ar gyfer cydraddoldeb mewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Cytunwyd ar fframwaith ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb yn gynnar wedi sefydlu'r swydd a datblygwyd y Cynllun ymhellach yn 2013-14, gan gydblythu ag amcanion strategol y Comisiynydd. Bwriedir ymgysylltu ac ymgynghori â'r naw grŵp gwarchoddedig rhwng Ebrill a Mehefin 2014 a chyhoeddi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol terfynol erbyn mis Medi 2014. Cynhaliwyd sesiynau ymwybyddiaeth cyffredinol i swyddogion yn gynnar yn 2013-14 a bwriedir cynnal sesiynau pellach yn 2014-15.

## Cydnabyddiaeth undeb

Mae gan y sefydliad gangen undeb gydnabyddedig, ac mae cyfarfodydd rheolaidd o'r Pwyllgor Whitley yn cael eu cynnal rhwng Cadeirydd ac Ysgrifennydd y gangen a'r Comisiynydd, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a'r Uwch Swyddog Adnoddau Dynol.

## Demograffeg oedran/rhyw y gweithlu

Oedran cyfartalog swyddogion Comisiynydd y Gymraeg ar 31 Mawrth 2014 oedd 36 mlwydd oed (2012-13: 36 mlwydd oed). Mae 36% (2012-13: 36%) o swyddogion y Comisiynydd yn wrywod a 64% (2012-13 : 64%) yn fenywod.

## Rheoli absenoldeb a phresenoldeb

Cyfanswm y diwrnodau gwaith a gollwyd drwy absenoldeb salwch am y cyfnod 1 Ebrill 2013 i 31 Mawrth 2014 oedd 185.0 (2012-13: 154.5). Cyfartaledd y diwrnodau gwaith a gollwyd fesul pen (cywerth â llawn amser) oedd 3.48 (2012-13: 3.41) a hynny wedi ei seilio ar 53.15 aelod o staff cywerth â llawn amser (2012-13: 45.28).

O'r diwrnodau gwaith a gollwyd drwy salwch, roedd 100% (2012-13: 87%) ohonynt oherwydd absenoldeb tymor byr a 0% (2012-13: 13%) oherwydd absenoldeb hirdymor. Diffiniad absenoldeb hirdymor yw absenoldeb o fwy nag 20 diwrnod am yr un rheswm.

## Trosiant staff

Roedd cyfradd trosiant staff yn 2013–14 yn 9.40% (2012-13: 8.83%).

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## Lles

Mae'r Comisiynydd yn darparu gwasanaeth cyngori cyfrinachol yn rhad ac am ddim i swyddogion er mwyn eu cefnogi os ydynt yn teimlo'n isel neu o dan straen yn y gwaith. Darperir y gwasanaeth hwn gan contractwr allanol.

## Dysgu a datblygu

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu trefn Rheoli Perfformiad sy'n sicrhau bod swyddogion yn deall beth a ddisgwylir ganddynt ac yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r gallu i gyflawni hynny. Mae trafod anghenion hyfforddi a datblygu yn rhan allweddol o'r drefn ac mae cynllun datblygu'n cael ei lunio ar gyfer pob swyddog ar sail y trafodaethau hynny.

## Materion amgylcheddol

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ymrwmo i arferion amgylcheddol da. Ers ei sefydlu ar 1 Ebrill 2012 mae'r Comisiynydd wedi datblygu polisi cynaliadwyedd amgylcheddol a chynllun gweithredu blynyddol. Cafodd y polisi ei rannu â swyddogion er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r polisi ac i hyrwyddo mesurau cynaliadwyedd amgylcheddol.

Yn ystod Mehefin a Gorffennaf 2013 cynhaliwyd asesiad Draig Werdd yn swyddfeydd y Comisiynydd yng Nghaerdydd ac yng Nghaernarfon gan Ganolfan Busnes Gwyrdd Cymru. Yn dilyn yr asesiad dyfarnwyd bod y Comisiynydd yn cyrraedd gofynion Lefel 2 Draig Werdd. Yn adroddiad Canolfan Busnes Gwyrdd Cymru cyflwynwyd rhai argymhellion i'r Comisiynydd, ac fe aed ati i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Cynaliadwyedd 2013-14.

Nod y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd yw gosod amcanion er mwyn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.

Ceisia'r Comisiynydd leihau ei effaith ar yr amgylchedd drwy gymryd y camau canlynol:

- Teithio: hyrwyddo defnyddio technoleg megis fideo-gynadledda er mwyn osgoi teithiau busnes; pan fo teithiau busnes yn angenrheidiol mae'r Comisiynydd yn annog trafndiaeth gyhoeddus a rhannu ceir
- Ynni: annog swyddogion i geisio defnyddio llai o ynni
- Gwastraff: gweithredu trefniadau ailgylchu gwastraff yn ei swyddfeydd
- Offer ac adnoddau: annog swyddogion i ddefnyddio llai o nwyddau traul lle bo hynny'n bosibl.

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

	<b>2013-14</b>
<b>Rheoli amgylcheddol</b>	
Lefel achredu'r Draig Werdd	2
<b>Allyriant nwyon tŷ gwydr</b>	
Cyfanswm yr allyriad kg CO <sub>2</sub>	66,482
Y gellir eu priodoli i deithiau busnes kg CO <sub>2</sub>	32,817
Teithiau mewn car kg CO <sub>2</sub>	19,768
Teithiau ar y rheilffordd neu hedfan kg CO <sub>2</sub>	13,049
Y gellir eu priodoli i ddefnydd o ynni kg CO <sub>2</sub>	33,665
Trydan kg CO <sub>2</sub>	29,015
Nwy kg CO <sub>2</sub>	4,650
Cyfanswm gwariant ar ynni £	12,910
Gwariant ar drydan £	12,103
Gwariant ar nwy £	807
<b>Defnydd o bapur mewn rimiau</b>	464

Mae targedau gwastraff 'Greening Government' sydd wedi eu nodi ym mharagraff 4.18 ac y cyfeirir atynt ym mharagraff 5.17 o'r cyhoeddiad 'Adroddiadau Blynyddol y Sector Cyhoeddus: cyfarwyddiadau adroddiadau cynladwyedd 2013-14' yn parhau yn amherthnasol i sefydliadau cyhoeddus Cymru.

### Rhyddid gwybodaeth

Derbyniwyd 11 cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn ystod y flwyddyn (2012-13: 11 cais). Mae ymatebion y Comisiynydd i geisiadau, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth a ryddhawyd, wedi eu cyhoeddi ar y wefan.

Ni dderbyniwyd unrhyw gais gwrthrych am wybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 yn ystod y flwyddyn.

### Cwynion yn erbyn y sefydliad

Yn unol ag Adran 14 y Mesur, mae gweithdrefn gwyno benodol ar gael os bydd unigolyn am gwyno am weithredoedd neu anweithiau'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r Comisiynydd. Ceir copi o'r weithdrefn hon ar wefan y Comisiynydd.

Derbyniwyd 5 cwyn yn erbyn y sefydliad yn ystod 2013-14 (2012-13: 3 cwyn).

Roedd un o'r cwynion yn ymwneud â methiant y Comisiynydd i gydnabod gohebiaeth o fewn y targed corfforaethol o 5 diwrnod gwaith. Yn yr achos hwn, dyfarnwyd bod methiant wedi bod. Ymddiheurwyd wrth yr unigolyn, ac o ganlyniad fe atgoffwyd swyddogion o'r gofynion a'r canllawiau perthnasol.

Yn achos y 4 cwyn arall, yn dilyn ymchwilio, dyfarnwyd nad oedd sail i'r cwynion.

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

### Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth

#### Polisi Taliadau Cydnabyddiaeth

Mae swyddogion Comisiynydd y Gymraeg yn parhau ar amodau a thelerau sy'n cyfateb i amodau a thelerau Llywodraeth Cymru. Dymuniad y Comisiynydd yw parhau ar yr un amodau a thelerau.

Telir aelodau'r Panel Cyngori, a benodwyd gan Weinidogion Cymru, yn unol â chyfraddau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Telir aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Risg, a benodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, ar yr un raddfa ag aelodau'r Panel Cyngori.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithredu Cynllun Rheoli Perfformiad ar gyfer ei holl swyddogion sy'n cyfateb i'r cynllun a ddefnyddir gan Drysorlys EM. Ni chyplysir taliadau cydnabyddiaeth â pherfformiad.

Ar y cyfan, cyflogir swyddogion (gan gynnwys swyddogion hŷn) i swyddi parhaol. Mae cyfnodau rhybudd yn amrywio o bedair wythnos i dri mis, gan ddibynnu ar lefel gwasanaeth a'i hyd.

Mae rhagor o fanylion am gostau swyddogion ac aelodau anweithredol o bwyllgorau wedi eu cynnwys o fewn nodiadau 1.7, 1.10 a 4 y cyfrifon.

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## Taliadau Cydnabyddiaeth (\*)

(\*) Mae'r adran hon yn amodol ar archwiliad

Rhestrir yn yr adrannau sy'n dilyn daliadau cydnabyddiaeth a diddordebau pensiwn y Comisiynydd a'r cyfarwyddwyr sydd ag awdurdod neu sy'n gyfrifol am arwain a rheoli prif weithgareddau'r Comisiynydd:

Enw a theitl	Cyflog (£)		Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) <sup>1</sup>		Cyfanswm (i'r £1,000 agosaf)	
	2013-14	2012-13	2013-14	2012-13	2013-14	2012-13
Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg	98,000	98,000	2,000	60,000	100,000	158,000
Gwenith Price <sup>2</sup> Cyfarwyddwr Strategol a Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg	61,300	56,667	16,000	24,000	77,000	81,000
Enid Lewis, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol	55,788	55,792	14,000	24,000	70,000	80,000
Gwyn Williams <sup>3</sup> Cyfarwyddwr Cyfathrebu (o 23 Gorffennaf 2012)	51,919	33,224 <sup>4</sup>	-	-	52,000	33,000

<sup>1</sup> Eleni, am y tro cyntaf, rhaid i'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth gynnwys Cyfanswm Tâl Cydnabyddiaeth Sengl; mae ffigurau cymharol y flwyddyn flaenorol wedi eu darparu ar gyfer 2012–13. Mae hon yn ffordd wahanol o gyflwyno'r tâl cydnabyddiaeth ar gyfer pob unigolyn am y flwyddyn. Mae'r tabl a ddefnyddir yn debyg i'r un a ddefnyddiwyd yn flaenorol, ac nid yw'r elfen cyflog wedi newid. Caiff swm y buddion pensiwn ar gyfer y flwyddyn sy'n cyfrannu at ffigur y cyfanswm sengl ei gyfrifo mewn ffordd newydd, yn debyg i'r dull a ddefnyddir i gyfrif gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth, ac mae'n seiliedig ar wybodaeth a dderbyniwyd gan myCSP.

Caiff gwerth y buddion pensiwn ei gyfrifo fel a ganlyn: (cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn\* x20) + (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad\*) - (cyfraniadau a wneir gan aelod) \*ac eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

Nid yw hwn yn swm y mae'r sefydliad wedi ei dalu i swyddog yn ystod y flwyddyn; mae'n gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn e.e. newidiadau mewn cyflog swyddog, p'un ai a ydyw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'i gyflog yn ogystal â ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn ei gyfanrwydd.

<sup>2</sup> Mae'r cyfarwyddwr yn derbyn lwfans o 10% o'r cyflog am ddirprwyo i Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod cyfnodau absenoldeb neu ar gais y Comisiynydd.

<sup>3</sup> Mae'r cyfarwyddwr yn aelod o'r cynllun pensiwn Partneriaeth, trefniant pensiwn rhanddeiliaid.

<sup>4</sup> Mae'r swm a ddyfynnir ar gyfer y cyfnod 23 Gorffennaf 2012 hyd 31 Mawrth 2013. Y swm cywerth â'r flwyddyn lawn yw £50,240.

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, goramser a lwfans cyfrifoldeb pan fo'n briodol. Mae'r adroddiad hwn wedi ei seilio ar daliadau cronedig gan Gomisiynydd y Gymraeg a gofnodwyd yn y cyfrifon hyn.

Penodwyd Meri Huws fel Comisiynydd y Gymraeg o 1 Ebrill 2012 ar gytundeb saith mlynedd gan Brif Weinidog Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Atodlen 1 Paragraffau 3(1) a 6(1). Mae Comisiynydd y Gymraeg yn aelod o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Wrth bennu unrhyw gynnydd blynyddol yn nhâl y Comisiynydd, bydd Prif Weinidog Cymru yn ystyried argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion (SSRB), corff sy'n cynghori Prif Weinidog y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig ar lefelau tâl y sector cyhoeddus.

## Buddion mewn da

Mae gwerth ariannol buddion mewn da yn cwmpasu unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac a ystyrir gan Gyllid a Thollau EM yn daliad trethadwy. Ni wnaed buddion mewn da yn ystod 2013-14 i swyddogion hŷn (2012-13: £0).

## Cynllun ymadael gwirfoddol

Roedd y cynllun ymadael gwirfoddol ar agor i'r holl swyddogion ar gontractau parhaol. O'r swyddogion hŷn, dim ond y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a dderbyniodd y pecyn ymadael. Bydd y Cyfarwyddwr yn gadael ar 31 Mai 2014 ac yn derbyn iawndal statudol o £95,000. Ni wnaethpwyd unrhyw daliadau *ex-gratia* i swyddogion yn ystod 2013-14.

## Canolrif tâl cydnabyddiaeth

Gofynnir i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y swyddog uchaf ei dâl yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad.

Band tâl y swyddog uchaf ei dâl oedd £95,000-100,000 (2012-13: £95,000-100,000). Roedd hyn 2.88 (2012-13: 2.94) gwaith tâl canolrifol y gweithlu sef £33,900 (2012-13: £33,200).

Cyfrifir cyfanswm canolrifol y gydnabyddiaeth drwy ddefnyddio tâl cywerth â llawn amser (cyflog gros) yr holl swyddogion, heb gynnwys y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf, a hynny ar y dyddiad adrodd.



## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

Enw a theitl	Cyfanswm y pensiwn cronedig a chyfan daliad perthnasol ar oedran ymddeol normal ar 31/03/14	Cynnydd gwirionedd ol mewn pensiwn a chyfan daliad perthnasol ar oedran ymddeol normal	Gwerth Trosglwydd o sy'n Gyfwerth ag Arian Parod 31/03/14	Gwerth Trosglwydd o sy'n Gyfwerth ag Arian Parod 31/03/13	Cynnydd gwirionedd ol yng Ngwerth Trosglwydd o sy'n Gyfwerth ag Arian Parod	Cyfraniad y cyflogwr i gyfrif pensiwn partneriaeth
	£000	£000	£000	£000	£000	£100 agosaf
Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg	5-10	0-2.5	112	98	1	-
Gwenith Price Cyfarwyddwr	15-20	0-2.5	244	217	10	-
Enid Lewis, Cyfarwyddwr	15-20 cyfandaliad 10-15	0-2.5 cyfandaliad -2.5-0	254	226	10	-
Gwyn Williams Cyfarwyddwr	-	-	-	-	-	8,500

### Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Er 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil fod mewn un o bedwar cynllun buddiannau diffiniedig; unai ar sail 'cyflog terfynol' (**classic**, **premium** neu **classic plus**) neu 'gynllun holl yrfa' (**nuvos**). Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi eu hariannu, Senedd y Deyrnas Unedig sy'n diwallu costau'r buddion bob blwyddyn. Cynnyddir pensiynau sy'n daladwy o dan **classic**, **premium**, **classic plus** a **nuvos** yn flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Gall aelodau a ymaelododd â'r cynllun o Hydref 2002 ddewis rhwng ymaelodi â'r trefniant budd diffiniedig priodol neu ymaelodi â phensiwn rhanddeiliad 'pwrcasu ariannol' gyda chyfraniad ystyrlon gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Pennir cyfraniadau'r cyflogai yn ddibynnol ar eu cyflog ac maent yn amrywio rhwng 1.5% a 6.25% o'r enillion pensiynadwy ar gyfer **classic**; a rhwng 3.5% ac 8.25% ar gyfer **premium**, **classic plus** a **nuvos**. Bydd cynnydd i gyfraniadau'r cyflogai o 1 Ebrill 2014. Bydd buddion y cynllun **classic** yn cronni ar raddfa 1 rhan mewn 80 o'r cyflog pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gywerth â thair blynedd o bensiwn dechreuol yn daladwy adeg ymddeol. Ar gyfer **premium**, bydd buddion yn cronni ar raddfa 1 rhan mewn 60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **classic**, ni cheir cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae **classic plus** yn gynllun cymysg, gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi eu cyfrifo'n fras megis **classic**, a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 wedi eu cyfrif megis **premium**. Yn **nuvos**, mae aelod yn adeiladu pensiwn sydd wedi ei seilio ar ei gyflog pensiynadwy yn ystod cyfnod ei



## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff cyfrif pensiwn cyflogadwy'r aelod ei gredu â 2.3% o gyflog pensiynadwy'r flwyddyn gynllun honno a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn rhanddeiliad yw'r cyfrif pensiwn **partneriaeth**. Bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 3% a 12.5% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y cyflogai o banel sy'n cynnwys tri darparwr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond lle byddant yn cyfrannu, bydd y cyflogwr yn cyfrannu'n gyfatebol hyd at o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% pellach o gyflog pensiynadwy er mwyn talu am sicrwydd budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad ar sail salwch).

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran ymddeol, neu'n syth wedi iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os bydd eisoes wedi cyrraedd yr oedran ymddeol. Yr oedran ymddeol yw 60 ar gyfer **classic**, **premium** a **classic plus**, a 65 ar gyfer aelodau **nuvos**.

Ceir rhagor o wybodaeth am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan [www.civilservice.gov.uk/pensions](http://www.civilservice.gov.uk/pensions)

### Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Ystyr Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (*GTGAP*) yw'r gwerth cyfalaf wedi ei asesu gan actwari o fuddion cynllun pensiwn sydd wedi eu cronni gan aelod ar adeg benodol mewn amser. Y buddion y rhoddir gwerth arnynt yw buddion cronedig yr aelod a phensiwn cymar amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae *GTGAP* yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant er mwyn sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall lle bydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, ac nid yn unig eu gwasanaeth mewn swyddogaeth hŷn y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun arall neu drefniant y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn arall a gronnir i'r aelod o ganlyniad i'r ffaith ei fod wedi pwrcau budd pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir *GTGAPau* yn unol â'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (fel y'u diwygiwyd) 2008, ond nid ydynt yn ystyried unrhyw wir ostyngiad neu ostyngiad potensial i fudd-daliadau sy'n deillio o'r Dreth Lwfans dros Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir budd-daliadau pensiwn.

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

### Cynnydd gwirioneddol mewn GTGAP

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn *GTGAP* sydd wedi ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer cychwyn a diwedd y cyfnod.

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Yn unol ag Atodlen 1 Paragraff 18(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i Gomisiynydd y Gymraeg lunio cyfrifon o ran pob blwyddyn ariannol yn unol â chyfarwyddiadau a roddir, gyda chydysyniad Trysorlys EM, gan Weinidogion Cymru.

Llunnir y cyfrifon ar sail groniodol, ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Comisiynydd ar ddiwedd y cyfnod, ac ar y gwariant net a'r llifoedd arian am y flwyddyn.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion y *Government Financial Reporting Manual* ac yn arbennig i:

- ufuddhau i'r cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cadw cyfrifon a datguddiadau, a gweithredu polisiau cyfrifo perthnasol a'u defnyddio'n gyson;
- llunio penderfyniadau ac amcangyfrifon mewn modd rhesymol;
- datgan a gadwyd at y safonau cyfrifo addas a osodwyd yn y *Government Financial Reporting Manual*, a datguddio ac esbonio unrhyw wyro materol a welir yn y cyfrifon; a
- llunio cyfrifon ar sail bod yn fusnes gweithredol.

Yn unol ag Atodlen 1 Paragraff 16(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, y Comisiynydd yw'r Swyddog Cyfrifyddu.

Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, tros gadw cofnodion priodol ac i warchod asedau Comisiynydd y Gymraeg, wedi eu nodi yn y memorandwm, *Managing Public Money*, a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

**Meri Huws**  
**Swyddog Cyfrifyddu**  
**Comisiynydd y Gymraeg**

**9 Gorffennaf 2014**

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## Datganiad Llywodraethiant Blynyddol

### 1. Cwmpas cyfrifoldeb

Fel y Swyddog Cyfrifyddu mae gennyf gyfrifoldeb personol am drefnu, rheoli a staffio Comisiynydd y Gymraeg yn gyffredinol. Mae'n rhaid i mi sicrhau bod safon uchel o reolaeth ariannol yn y sefydliad a bod ei systemau a'i gweithdrefnau ariannol yn hyrwyddo proses effeithlon a darbodus o gynnal busnes a diogelu priodoldeb a rheoleidd-dra ariannol.

### 2. Diben y fframwaith llywodraethu

Nod y fframwaith llywodraethu yw cadw fy annibyniaeth fel Comisiynydd y Gymraeg a chydbwysu'r annibyniaeth honno â'm hatebolrwydd am yr arian cyhoeddus rwyf yn ei wario.

Fel Swyddog Cyfrifyddu rwyf yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion Cymru neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Dŷ'r Cyffredin neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin.

Diffinnir Comisiynydd y Gymraeg drwy statud fel corfforaeth undyn a chanddo bwerau a chyfrifoldebau sy'n deillio o Ran 2, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n pennu'r ffordd y caiff Comisiynydd y Gymraeg ei gyfarwyddo ac a ddefnyddir i'w ddwyn i gyfrif am ei weithgareddau.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith llywodraethu gyda'r nod o reoli risg i lefel resymol.

Mae Datganiad Llywodraethiant parhaol Comisiynydd y Gymraeg i'w gael ar y wefan gorfforaethol.

### 3. Llywodraethiant y sefydliad

#### Cynllunio strategol ac adolygu perfformiad

Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg Gynllun Strategol dwy flynedd hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol 2014-15, gyda Chynllun Gweithredol manwl yn cael ei lunio bob blwyddyn. Datblygwyd Cynllun Gweithredol 2013-14 gyda chyfraniad uwch swyddogion y Comisiynydd drwy drafodaethau mewnol.

Cyfrifoldeb y Cyfarwyddiaethau penodol yw gweithredu'r camau sydd wedi eu nodi, ac yna bydd y Tîm Rheoli'n adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y targedau a'r canlyniadau drwy adroddiadau deufisol. Cyflawnwyd gweithgareddau allweddol 2013-14 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## Dirprwy Gomisiynydd

Yn unol ag adrannau 12 a 13 y Mesur, mae'n ofynnol i Gomisiynydd y Gymraeg benodi dirprwy Gomisiynydd. Bydd y Dirprwy Gomisiynydd yn dirprwyo i Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod cyfnodau gwyliau a salwch ac ar unrhyw adeg arall ar gais Comisiynydd y Gymraeg. Gwenith Price, Cyfarwyddwr Polisi a Chydymffurfiaeth yw'r Dirprwy Gomisiynydd. Penodwyd y Dirprwy Gomisiynydd ym mis Medi 2012 ac mae'r rôl yn un am gyfnod o ddwy flynedd. Cynhelir adolygiad o'r rôl yn ystod 2014.

## Tîm Rheoli

Mae'r Tîm Rheoli, sy'n cael ei gadeirio gan y Comisiynydd ac yn cynnwys yr holl gyfarwyddwyr, yn rheoli holl swyddogaethau a gweithgareddau'r Comisiynydd. Y Tîm Rheoli sy'n gyfrifol am arwain, cytuno a chyflawni gweledigaeth strategol y Comisiynydd, polisiau a gwasanaethau i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Cafodd cylch gorchwyl y Tîm Rheoli ei adolygu ym mis Mai 2013. Mae cylch gorchwyl y Tîm Rheoli wedi ei gyhoeddi ar wefan y Comisiynydd.

Cyfarfu'r Tîm Rheoli yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, a hynny gan amlaf yn bythefnosol ac mae'n gyfrifol am arwain a rheoli gweithgarwch ar draws y sefydliad. Yn y pen draw, dyma'r prif fforwm (wedi ei gefnogi'n briodol gan grwpiau eraill) ar gyfer gwneud penderfyniadau gweithredol am faterion gweithredu, adnoddau, cyfathrebu a materion gweinyddol eraill er mwyn gweithredu'r cynllunio strategol a'r holl brosesau cynllunio busnes eraill, ac ar gyfer monitro perfformiad. Bydd cyfarfod cyntaf bob mis yn gyfarfod strategol a'r ail yn canolbwyntio ar adolygu a monitro.

## Archwilwyr

Paratowyd cynllun archwilio mewnol gan yr archwilwyr mewnol ym mis Mai 2013 ac fe'i cymeradwywyd gan y Comisiynydd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Mehefin 2013. Daeth cyfnod PricewaterhouseCoopers fel archwilwyr mewnol i ben ar 31 Mawrth 2014. Yn dilyn proses dendro gystadleuol lawn, penodwyd KTSowenstomas Cyfyngedig Owens Thomas yn archwilwyr mewnol o 1 Ebrill 2014 am gyfnod o 3 blynedd.

Penodwyd Swyddfa Archwilio Cymru i archwilio cyfrifon y Comisiynydd o dan Atodlen 1 Rhan 5 o'r Mesur.

## Pwyllgor Archwilio a Risg

Y Pwyllgor Archwilio a Risg sy'n gyfrifol am ddarparu cyngor a sicrwydd annibynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Tîm Rheoli ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaeth fewnol a rheoli risg. Cafodd cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg ei adolygu ym mis Rhagfyr 2013. Ceir copi o gylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg ar wefan y Comisiynydd.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnwys tri aelod annibynnol sy'n cyfarfod yn chwarterol. Fe'i penodwyd ym mis Tachwedd 2012, am gyfnod o 3 blynedd yn y lle cyntaf. Cytunwyd yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2013 y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cyfarfod deirgwaith yn hytrach na phedair gwaith yn ystod 2014-15, oherwydd bod modd cyflawni'r gwaith yr un mor effeithiol mewn tri chyfarfod.

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

Bwriedir gosod trefn mewn lle yn y dyfodol a fydd yn caniatáu i aelodau ymddeol ar wahanol adegau er mwyn sicrhau parhad profiad a gwybodaeth.

Roedd aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg, a'u presenoldeb fel a ganlyn:

	19 Mehefin 2013	4 Medi 2013	5 Rhagfyr 2013	17 Mawrth 2013
Wyn Jones (Cadeirydd)	✓	✓	✓	✓
Rheon Tomos	✓	✓	✓	✓
Maria Jones	✓	✓	X	✓

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn derbyn nifer o eitemau agenda sefydlog ym mhob cyfarfod. Un o'r rhain yw rheoli risg, gan gynnwys manylion unrhyw risgiau newydd ac unrhyw newidiadau i'r gofrestr risg gyfredol.

Eitem sefydlog arall i'w hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yw adrodd ar unrhyw dwyll neu golledion gan gynnwys colli data. Nid oedd unrhyw hysbysiadau o'r fath wedi eu derbyn yn ystod 2013-14.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi derbyn yr adroddiad cyllid misol a'r adroddiad monitro ar y Cynllun Gweithredol, sydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Tîm Rheoli, fel rhan o'i gylch gwaith.

Mae aelodau'r Tîm Rheoli yn mynychu pob Pwyllgor Archwilio a Risg. Roedd cynrychiolwyr o'r archwilwyr mewnol ac allanol yn bresennol ymhob cyfarfod. Mae croeso hefyd i ddau swyddog arsylwi ar y cyfarfodydd. Cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant ar SGwNI, System Rheoli Gwybodaeth y Comisiynydd, i'r pwyllgor ym mis Mawrth 2014. Cafwyd 2 sesiwn hyfforddiant ar gyfer y Cadeirydd gan Swyddfa Archwilio Cymru, ym mis Ebrill ac ym mis Tachwedd.

Ymddiswyddodd Maria Jones ym mis Mawrth 2014. Bydd y Comisiynydd yn mynd ati i gynnal proses o benodi aelod newydd.

Ar ddiwedd pob cyfarfod caiff pawb sy'n mynychu gyfle i gynnig barn ar unrhyw agwedd ar y cyfarfod. Am y tro cyntaf yn 2013-14 cynhaliwyd adolygiad blynyddol er mwyn sicrhau bod gwaith y Pwyllgor Archwilio a Risg yn parhau i gydymffurfio â'i gylch gorchwyl. I helpu'r Pwyllgor i benderfynu p'un ai a oedd yn cydymffurfio ag arfer da, gwahoddwyd pob aelod i lenwi holiadur hunanasesiad. Cyflwynwyd dadansoddiad o'r ymatebion i'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn eu cyfarfod ym mis Mawrth 2014, a gellir casglu o'r ymatebion cadarnhaol fod y Pwyllgor yn gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon.

Cyflwynodd y Pwyllgor Archwilio a Risg adroddiad blynyddol ar gyfer 2013-14 i'r Comisiynydd ym mis Ebrill 2014. Nid oes unrhyw faterion o bryder wedi eu dwyn at sylw'r Comisiynydd yn yr adroddiad hwn.

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

Felly, roedd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn gallu rhoi sicrwydd y byddai'n cynorthwyo Comisiynydd y Gymraeg i gydymffurfio â'i ddyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu, yn benodol yng nghyswllt rhoi tystiolaeth a fyddai'n helpu â'r gwaith o baratoi'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol hwn.

### Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg

Yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gan Gomisiynydd y Gymraeg Banel Cynghori. Penodwyd y Panel Cynghori gan Weinidogion Cymru ar 17 Ebrill 2012 am gyfnod o 3 blynedd hyd at 31 Mawrth 2015. Caiff y Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cynghori ynghylch unrhyw fater. Cafodd cylch gorchwyl y Panel Cynghori ei adolygu ym mis Ebrill 2013. Ceir copi o gylch gwaith y Panel Cynghori ar wefan y Comisiynydd.

Roedd aelodaeth y Panel Cynghori, a'u presenoldeb fel a ganlyn:

	14 Mai 2013	8 Gorffennaf 2013	11 Tachwedd 2013	14 Mawrth 2014
Dr Ian Rees (Cadeirydd)	✓	✓	✓	✓
Virginia Isaac	X	✓	X	
Gareth Jones	✓	✓	✓	✓
Yr Athro Gwynedd Parry	✓	✓	✓	✓

Ymddiswyddodd Virginia Isaac ym mis Ionawr 2014. Mae Gweinidogion Cymru wedi cychwyn ar y broses o benodi aelod newydd.

### Panel Cwynion ac Ymchwiliadau Statudol (adran 17 – 20, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993)

Sefydlwyd Panel Cwynion ac Ymchwiliadau Statudol Comisiynydd y Gymraeg ym mis Mehefin 2012. Y Comisiynydd a'r cyfarwyddwyr sy'n eistedd ar y Panel ac maent wedi bod yn cwrdd yn fisol. Yn ystod 2013-14 cynhaliodd y Panel 21 cyfarfod. Roedd 13 o'r cyfarfodydd hynny'n gyfarfodydd rheolaidd ac 8 ohonynt yn gyfarfodydd wedi eu trefnu ar frys er mwyn rhoi sylw i faterion penodol.

Mae'r Panel yn sicrhau bod cynlluniau iaith yn cael eu gweithredu'n well drwy lunio argymhellion i adroddiadau statudol dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a fydd yn gwella ystod neu ansawdd gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog.

Yn ystod 2013-14 agorwyd 3 ymchwiliad statudol dan adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 gan y Comisiynydd. Cynhaliwyd ymchwiliadau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol, lluniwyd adroddiadau ac argymhellion i'r sefydliadau gan y Panel a chyhoeddwyd yr adroddiadau hyn ar wefan y Comisiynydd. Agorodd y Comisiynydd ymchwiliad i Ofcom dan adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ond yn dilyn sicrwydd gan y sefydliad ei fod yn cydymffurfio ag ysbryd y cynllun, penderfynwyd terfynu'r ymchwiliad.



## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

Mae'r Panel Cwynion ac Ymchwiliadau Statudol hefyd yn ystyried cwynion am y defnydd o'r Gymraeg, neu ddiffyg defnydd o'r Gymraeg, gan sefydliadau eraill yn y sector preifat, y trydydd sector a chan gyrff y goron.

Bydd Panel Cwynion ac Ymchwiliadau Statudol Comisiynydd y Gymraeg hefyd yn ystyried ac yn rhoi arweiniad ar Ran 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mewn perthynas â chwynion i'r Comisiynydd am ymyrraeth â rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg. Yn ystod 2013-14 agorwyd un ymchwiliad i ymyrraeth honedig dan adran 115 y Mesur.

### Gweithio'n gyfochrog ag Ombwdsmon a Chomisiynwyr

Mae Adran 20 a 21 y Mesur yn amlinellu i ba raddau y gall Comisiynydd y Gymraeg weithio'n gyfochrog ag ombwdsmon a chomisiynwyr. Yn y Mesur fe enwir y sefydliadau canlynol fel rhai gall y Comisiynydd weithio'n gyfochrog â hwy: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; Comisiynydd Plant Cymru; a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Cytunwyd ar Femorandwm Cydweithio gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar Femorandwm Cydweithio â Chomisiynydd Plant Cymru.

Yn dilyn ymateb y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i gais Comisiynydd y Gymraeg i ddechrau trafodaethau am lunio Memorandwm Cydweithio, nododd y Comisiwn nad oedd yn ystyried bod dogfen o'r fath yn cyflawni'r amcan o adeiladu perthynas weithio gadarn, ac ymddiriedaeth fel sail i gydweithio effeithiol. Serch hynny, mae modd i swyddogion y Comisiynydd gysylltu â swyddogion y Comisiwn i drafod materion penodol o gydweithio.

### 4. Y gallu i ymdrin â risg

Mae'r system rheoli risg yn cael ei harwain gan y Tîm Rheoli ac mae'n cael ei hardystio gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae aelod o'r Tîm Rheoli wedi ei enwi fel Rheolwr Risg y sefydliad. Cynhaliwyd hyfforddiant sefydlu ar ymwybyddiaeth risg ar gyfer swyddogion newydd yn ystod 2013-14. Bydd hyfforddiant ar gyfer yr holl swyddogion yn cael ei gynnal bob 3 blynedd.

### 5. Y fframwaith risg a rheoli

Cynhelir asesiad ffurfiol o'r risgiau a'r gofrestr risg, a arweinir gan y Rheolwr Risg o leiaf bob chwe mis. Caiff y gofrestr risg ei rhannu yn risgiau strategol a risgiau gweithredol. Yn ogystal mae yna 5 is-gofrestr risg yn cofnodi risgiau mewn meysydd penodol.

Adolygwyd y gofrestr gan y Tîm Rheoli ym mis Gorffennaf 2013 ac ym mis Chwefror 2014 a chan y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Medi 2013 a mis Mawrth 2014.

Caiff risgiau perthnasol eu nodi ym mhob papur a gyflwynir i'r Tîm Rheoli. Mae hynny yn ei dro yn atgoffa swyddogion i adnabod a rheoli'r risgiau.

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## 6. Digwyddiadau cysylltiedig â data personol

Yn ystod y flwyddyn ariannol, ni adroddwyd unrhyw ddigwyddiad yn ymwneud â data personol. Mae'r Comisiynydd yn cynnal polisi a gweithdrefnau diogelu gwybodaeth.

## 7. Adolygiad effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system ddiogel o reolaeth fewnol. Dylanwadir ar fy nhrosolwg o effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol gan waith yr archwilwyr mewnol a'r Tîm Rheoli o fewn y sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y system reolaeth fewnol, a chan sylwadau a wneir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei lythyr rheolaeth ac mewn adroddiadau eraill. Cefais fy nghynghori ynghylch arwyddocâd canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd system reolaeth fewnol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Rheolwr Risg, ac mae cynllun i gywiro gwendidau ac i sicrhau gwelliant parhaol i'r system yn ei le.

Mae'r archwilwyr mewnol, PricewaterhouseCoopers, wedi datgan barn eu bod yn gallu rhoi lefel uchel o sicrwydd dros ein rheolaeth ariannol fewnol.

## 8. Heriau sylweddol i reolaeth fewnol

Dyma ail flwyddyn Comisiynydd y Gymraeg ac felly mae gwaith parhaus o adolygu a gwella systemau a phrosesau rheolaeth fewnol ar waith. Mae fframwaith llywodraethu wedi ei sefydlu a chafodd ei effeithiolrwydd ei asesu gan waith archwilio mewnol.

Un o'r heriau mwyaf sylweddol sy'n wynebu'r sefydliad yw gweithredu fel corfforaeth undyn annibynnol gan ystyried bod y sefydliad yn cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

Hysbyswyd Comisiynydd y Gymraeg gan Lywodraeth Cymru ar 16 Hydref 2013 y byddai toriad o 10% i gyllideb y Comisiynydd yn 2014-15. Mynegwyd pryder gan nad oedd y Comisiynydd wedi derbyn eglurhad o sail y penderfyniad nac unrhyw raghysbysiad o hynny. Gosododd Llywodraeth Cymru gyllideb ddrafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Hydref 2013 a nodwyd y byddai'r iaith Gymraeg yn derbyn toriad o 2.8% am 2014-15 a 3.6% am 2015-16. Felly o'r £700,000 o doriad, mae £410,000 yn dod o gyllideb y Comisiynydd. Caiff y toriad hwn o 10% ei ystyried yn faich afresymol ar un sefydliad gan ystyried setliad sefydliadau eraill. Wrth dderbyn bod angen i bob sefydliad rannu'r baich o doriadau, mae yna ddyletswyddau/swyddogaethau ychwanegol ar Gomisiynydd y Gymraeg o 2014 ymlaen. Mae Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg (SACC) yn gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) i Weinidogion Cymru'n flynyddol. Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2013 yn enwi Comisiynydd y Gymraeg fel corfforaeth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori â hi mewn cysylltiad â chynlluniau addysg Gymraeg. Disgwylir i'r CSGA gael eu cyflwyno i'r Llywodraeth erbyn 1 Ebrill 2014.

Pan sefydlwyd Comisiynydd y Gymraeg ar 1 Ebrill 2012 etifeddwyd strwythur a gytunwyd arno rhwng swyddogion Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Cymru. Wrth i'r sefydliad ddatblygu ac wrth i bwerau statudol newydd ddod i rym, cred y Comisiynydd bod angen adolygu'r strwythur gwreiddiol, gan greu strwythur sydd yn fwy addas ar

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

gyfer ymateb i swyddogaethau Comisiynydd y Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Bydd y strwythur newydd hefyd yn caniatáu i'r Comisiynydd ymateb i'r toriad cyllideb.

Rhwng 16 Ebrill a 15 Mai 2014 cynhaliwyd ymgynghoriad â swyddogion y Comisiynydd ar y strwythur arfaethedig. Bu hefyd cydweithio agos rhwng y Comisiynydd a'r Undeb yn ystod y cyfnod hwn. Er mwyn cynorthwyo'r Comisiynydd â'r broses hon, defnyddiwyd ymgynghorydd adnoddau dynol annibynnol.

Cyn bwrw ymlaen â'r cynllun ailstrwythuro yn dilyn trafodaeth â'r Undeb cyhoeddodd y Comisiynydd gynllun ymadael gwirfoddol er mwyn galluogi'r rheini oedd yn dymuno gadael cyflogaeth Comisiynydd y Gymraeg i wneud hynny lle bo'n ymarferol bosibl. Bu'r ymgynghorydd hefyd yn cynghori ac yn cynorthwyo'r Comisiynydd â'r cynllun hwn. Ni wnaethpwyd unrhyw daliadau ychwanegol i swyddogion y tu allan i'r cynllun hwn.

Mae'r ail flwyddyn wedi bod yn gyfnod o symud tuag at weithredu rhannau 4 a 5 o'r Mesur, sydd yn arwain at y gwaith o baratoi at yr Ymchwiliadau Safonau. Dechreuwyd ar gylch 1 yr Ymchwiliadau Safonau ar 27 Ionawr 2014, gyda chwech ar hugain o sefydliadau gan gynnwys 22 Cyngor Sir a Chyngor Bwrdeistref Sirol Cymru, 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Cymru. Adroddir ymhellach ar y gwaith hwn o dan Amcan Strategol 3.

Mae rheoli a gwarchod data yn parhau fel mater penodol o risg ar y gofrestr. Gosodwyd trefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod y Comisiynydd yn delio â hyn yn effeithiol ac mae swyddog wedi ei benodi i fod â chyfrifoldeb dros sicrhau cydymffurfiaeth yn y maes hwn. Diweddarwyd y canllawiau diogelu data ac mae hyfforddiant wedi ei ddarparu i swyddogion.

Mae rheoli disgwyliadau'r cyhoedd o sefydliad fel Comisiynydd y Gymraeg wedi ei adnabod fel mater penodol o risg. Adolygwyd y gofrestr risg gan ystyried y risg hon ac mae'r cynllun cyfathrebu allanol a gymeradwywyd gan y Tîm Rheoli, yn weithredol. Adolygodd y Tîm Rheoli'r cynllun hwn ym mis Mawrth 2014.

Yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, caiff y Comisiynydd ddarparu cymorth i unigolion mewn achosion cyfreithiol sy'n berthnasol i fater mae gan y Comisiynydd swyddogaeth mewn cysylltiad ag ef. Bydd y gwaith o lunio polisi ar hyn yn cael ei gyflawni ddechrau 2014-15.

Etifeddwyd 3 grant; arferai'r sefydliadau hyn dderbyn cyllid gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Cymeradwywyd y grantiau hyn ar gyfer 2012-13 gan Weinidogion Cymru. Erbyn hyn, dim ond un sefydliad sy'n derbyn grant, sef Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Cytunwyd ar dargedau â'r sefydliad a chaiff y rheini eu monitro bob chwarter.

## **Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14**

Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth y Comisiynydd gais am adolygiad barnwrol o benderfyniad Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol, un o adrannau Trysorlys EM , i ddiddymu ei gynllun iaith Gymraeg. Cynhaliwyd gwrandawriad ar 19 Chwefror 2014 yn yr Uchel Lys Barn yng Nghaerdydd parthed cais Comisiynydd y Gymraeg am Adolygiad Barnwrol o benderfyniad Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol, gyda Gweinidogion Cymru fel parti â diddordeb. Dyfarnwyd yr achos ar 6 Mawrth 2014. Gorchmynnwyd bod cynllun iaith y Diffynnydd yn aros mewn grym oni bai ac hyd nes y bydd y Diffynnydd yn penderfynu ei newid, ar ôl proses sy'n gyfreithlon o dan delerau dyfarniad 6 Mawrth 2014. Bydd y Diffynnydd yn talu costau hawliad yr Hawlydd yn amodol ar asesiad manwl ar sail safonol os na cheir cytundeb. Bu paratoi deunydd a chanfod y ddogfennaeth gywir er mwyn cynnal yr achos yn brawf o brosesau a gweithdrefnau mewnol y Comisiynydd o gadw cofnodion.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd tri sesiwn hyfforddi i holl swyddogion y Comisiynydd. Roedd seminar mis Mehefin yn canolbwyntio ar ddulliau cyfathrebu effeithiol gyda hyfforddwr allanol. Ym mis Hydref cafwyd cyflwyniad gan Seán O Cuirreáin, An Coimisinéir Teanga (Comisiynydd Iaith Iwerddon), fforwm trafod mewnol ar weithdrefn cwynion y Comisiynydd a chyflwyniad gan un o swyddogion y Comisiynydd ar ddulliau o adnabod ac asesu cyfleoedd i ddylanwadu ar bolisi. Ym mis Mawrth 2014, canolbwyntiwyd ar yr ymchwiliadau safonau a'r adolygiad barnwrol. Mae cynllun cyfathrebu mewnol mewn lle a bu'n destun archwiliad mewnol yn 2013. Gwnaethpwyd argymhellion gan yr archwilwyr mewnol ar ddulliau rhaeadru gwybodaeth a hefyd dulliau o fonitro hynny. Adolygwyd y cynllun hwn gan y Tîm Rheoli ym mis Mawrth 2014.

**Meri Huws,  
Swyddog Cyfrifyddu  
Comisiynydd y Gymraeg**

**9 Gorffennaf 2014**

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

### Adroddiad archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, archwilydd penodedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd y Gymraeg am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian Parod a'r Datganiad o Newidiadau o ran Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y nodir ei bod wedi ei harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

#### Priod gyfrifoldebau'r Comisiynydd a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r Cyfrifon Blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth i'w harchwilio yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

#### Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Cynhelir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth ddigonol o'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: p'un ai a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Comisiynydd y Gymraeg a ph'un ai a ydynt wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb unrhyw amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan Gomisiynydd y Gymraeg; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn Sylwadaeth y Rheolwyr er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## Barn ar y Datganiadau Ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Comisiynydd y Gymraeg ar 31 Mawrth 2014 a'i wariant net, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig, a llifoedd arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ymhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth i'w harchwilio wedi ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011; ac
- mae'r wybodaeth ariannol, sydd wedi ei chynnwys yn y 'Crynodeb ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol' a'r rhan o'r 'Adroddiad ar Gydnabyddiaeth' nas archwiliwyd, yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a ddynodwyd gan Drysorlys EM o ran cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Huw Vaughan Thomas  
Archwilydd Cyffredinol Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

15 Gorffennaf 2014

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

### Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014

	Nodiadau	2013-14 £000	£000	2012-13 £000	£000
<b>Gwariant</b>					
Grantiau	3	88		181	
Gwariant rhaglenni eraill	6	402		164	
Costau swyddogion	4	2,803		2,098	
Gweinyddu	5	969		1,043	
Dibrisiant ac amorteiddiad	7,8	85		84	
			<b>4,347</b>		3,570
<b>Incwm</b>			-		-
Gwariant net			<b>4,347</b>		3,570
Llog a dderbyniwyd			<b>(4)</b>		(5)
<b>Gwariant net ar ôl llog</b>			<b>4,343</b>		3,565

Mae'r holl weithgareddau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn parhau.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 56 i 66 yn rhan o'r cyfrifon hyn.



# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## Datganiad Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2014

	Nodiadau	31 Mawrth 2014		31 Mawrth 2013	
		£000	£000	£000	£000
<b>Asedau nad ydynt yn gyfredol</b>					
Asedau anghyffyrddadwy	7	69		60	
Eiddo, offer a pheiriannau	8	117		172	
<b>Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol</b>			186		232
<b>Asedau cyfredol</b>					
Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy	9	128		147	
Arian parod ac arian cywerth	10	1,080		834	
<b>Cyfanswm asedau cyfredol</b>			1,208		981
<b>Cyfanswm asedau</b>			1,394		1,213
<b>Rhwymedigaethau cyfredol</b>					
Masnach a symiau eraill sy'n daladwy	11	(168)		(192)	
<b>Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol</b>			(168)		(192)
<b>Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol ac asedau cyfredol net</b>			1,226		1,021
<b>Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol</b>					
Darpariaethau	12	(615)		(167)	
<b>Cyfanswm rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol</b>			(615)		(167)
<b>Asedau llai rhwymedigaethau</b>			611		854
<b>Ecwiti'r trethdalwyr</b>					
Cronfa gyffredinol			611		854
			611		854

Mae'r nodiadau ar dudalennau 56 i 66 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Mae'r datganiadau ariannol ar dudalennau 52 i 55 wedi eu cymeradwyo gan y Swyddog Cyfrifyddu ac wedi ei awdurdodi gan:

**Meri Huws**  
**Swyddog Cyfrifyddu**  
**Comisiynydd y Gymraeg**  
**9 Gorffennaf 2014**

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## Datganiad Llifoedd Arian am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014

	Nodiadau	2013-14 £000	2012-13 £000
<b>Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu</b>			
Gwariant net		<b>(4,347)</b>	(3,570)
Amortiddiad ar asedau anghyfyrrdadwy	7	<b>28</b>	17
Dibrisiant ar eiddo, offer a pheiriannau	8	<b>57</b>	67
Colled ar werthiant asedau nad ydynt yn gyfredol		-	7
Cynnydd mewn darpariaethau	12	<b>448</b>	167
Lleihad / (Cynnydd) mewn derbyniadau masnach ac asedau cyfredol eraill	9	<b>19</b>	(15)
(Lleihad) / Cynnydd mewn taliadau masnach a thaliadau eraill	11	<b>(24)</b>	43
<b>(All-lif) arian net o weithgareddau gweithredu</b>		<b><u>(3,819)</u></b>	<u>(3,284)</u>
<b>Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi</b>			
Llog a dderbyniwyd		<b>4</b>	5
Taliad i gaffael asedau anghyfyrrdadwy	7	<b>(37)</b>	(22)
Taliad i gaffael eiddo, offer a pheiriannau		<b>(3)</b>	(77)
Derbyniadau am werthiant eiddo, offer a pheiriannau		<b>1</b>	1
<b>(All-lif) arian net o weithgareddau buddsoddi</b>		<b><u>(35)</u></b>	<u>(93)</u>
<b>Llifoedd arian o weithgareddau cyllido</b>			
Cyllido gan Weinidogion Cymru		<b>4,100</b>	4,100
<b>Cyllido net</b>		<b>4,100</b>	4,100
<b>Cynnydd net mewn arian parod ac arian cywerth</b>			
<b>Arian parod ac arian cywerth ar ddechrau'r cyfnod</b>	10	<b>834</b>	111
<b>Arian parod ac arian cywerth ar ddiwedd y cyfnod</b>	10	<b>1,080</b>	834

Mae'r nodiadau ar dudalennau 56 i 66 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

### Datganiad Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014

	Nodiadau
	<b>£000</b>
Balans ar 1 Ebrill 2012	<u>319</u>
<b>Newidiadau mewn cronfeydd ar gyfer 2012-13</b> (Diffyg) a gadwyd	<u>(3,565)</u>
<b>Cyfanswm incwm a gwariant a gydnabyddir ar gyfer 2012-13</b>	<u>(3,565)</u>
Cyllido gan Weinidogion Cymru	<u>4,100</u>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2013</b>	<b>854</b>
<b>Newidiadau mewn cronfeydd ar gyfer 2013-14</b> (Diffyg) a gadwyd	<u>(4,343)</u>
<b>Cyfanswm incwm a gwariant a gydnabyddir ar gyfer 2013-14</b>	<u>(4,343)</u>
Cyllido gan Weinidogion Cymru	<u>4,100</u>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2014</b>	<b><u>611</u></b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 56 i 66 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Caiff y Comisiynydd, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Adran 9, ddarparu cymorth i unigolyn mewn achos cyfreithiol gwirioneddol neu achos cyfreithiol posibl yng Nghymru a Lloegr sy'n berthnasol i fater y mae gan y Comisiynydd swyddogaeth mewn cysylltiad ag ef. Nid oes cyllideb wedi ei dyrannu gan Weinidogion Cymru ar gyfer y cymorth. Yn dilyn trafodaethau penderfynwyd yn ystod y blynyddoedd cyntaf y byddai'n briodol i Gomisiynydd y Gymraeg adeiladu cronfa wrth gefn o danwariant y gyllideb flynyddol.

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014

Lluniwyd y cyfrifon hyn yn unol â *Government Financial Reporting Manual* (FReM) 2013-14 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, ac unrhyw Gyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Mae'r polisiau cyfrifyddol a gynhelir yn y FReM yn gweithredu Egwyddorion Adnodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), wedi eu haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bo'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddol, dewiswyd y polisi cyfrifyddol a ystyrir fwyaf addas ar gyfer amgylchiadau neilltuol Comisiynydd y Gymraeg, er mwyn rhoi barn gywir a theg. Disgrifir isod y polisiau neilltuol a ddilynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Fe'u gweithredwyd yn gyson wrth ddelio â'r eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

### 1 Datganiad polisiau cyfrifo

#### (1.1) Confensiynau cyfrifo

Lluniwyd y cyfrifon hyn yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol. Nid yw'r Comisiynydd wedi ailbriso unrhyw eiddo, offer a pheiriannau nac unrhyw asedau anghyffyrddadwy gan nad yw addasiadau ailbriso, ym marn y Comisiynydd, yn sylweddol.

#### (1.2) Cyllido

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn derbyn symiau gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â gwariant a dynnir wrth gyflawni'r swyddogaethau. Ystyrir y symiau hyn yn rhai ariannu ac fe'u credydir i'r Gronfa Gyffredinol adeg eu derbyn.

#### (1.3) Asedau anghyffyrddadwy

Mae asedau sefydlog anghyffyrddadwy dros £1,000, gan gynnwys TAW anadferadwy, yn cael eu cyfalafu. Mae asedau anghyffyrddadwy yn cynnwys trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol a thrwyddedau eraill. Grwpwyd nifer mawr o asedau o'r un math gyda'i gilydd wrth bennu a ydynt uwchben neu o dan y trothwy.

Cynhwysir asedau sefydlog anghyffyrddadwy ar eu cost hanesyddol. Nid yw'r asedau sefydlog wedi eu hailbriso, gan na fyddai'r addasiadau o ailbriso yn sylweddol.

Bydd asedau sefydlog anghyffyrddadwy yn cael eu hamorteiddio drwy randaliadau cyfartal blynyddol dros eu hoes economaidd defnyddiol amcangyfrifedig, rhwng 3 a 10 mlynedd.

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

### (1.4) Eiddo, offer a pheiriannau

Mae eiddo, offer a pheiriannau dros £1,000, gan gynnwys TAW anadferadwy, yn cael eu cyfalafu. Grwpiwyd nifer mawr o asedau o'r un math gyda'i gilydd wrth bennu a ydynt uwchben neu o dan y trothwy.

Cynhwysir eiddo, offer a pheiriannau ar eu cost hanesyddol, gan gynnwys costau fel gwaith gosod y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddod â nhw i'r cyflwr gweithio ar gyfer eu defnydd arfaethedig. Nid yw eiddo, offer a pheiriannau wedi eu hailbrisio, gan na fyddai'r addasiadau o ailbrisio yn sylweddol.

Bydd eiddo, offer a pheiriannau yn cael eu dibrisio drwy randaliadau cyfartal blynyddol dros hyd y les, neu eu hoes economaidd defnyddiol amcangyfrifedig, rhwng 36 a 90 mis.

### (1.5) Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol pan fydd gan Gomisiynydd y Gymraeg rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol a bod tebygrwydd y bydd angen all-lif o fudd economaidd i dalu'r rhwymedigaeth.

### (1.6) Treth ar Werth

Nid yw Comisiynydd y Gymraeg wedi cofrestru ar gyfer Treth ar Werth. Adroddir ar bob gwariant a chyfalaf gan gynnwys TAW, os yw'n berthnasol, gan na ellir adennill TAW.

### (1.7) Pensiynau

Telir i'r Tâl-feistr Cyffredinol symiau priodol i gynrychioli rhwymedigaethau cronedig Pensiwn y Gwasanaeth Sifil am bensiynau a buddiannau tebyg i bersonau a gyflogir gan y Comisiynydd ac am gostau gweinyddol sydd i'w priodoli i'r rhwymedigaethau a'u cyflawni.

Mae gweithwyr cyfredol a blaenorol yn dod o dan ddarpariaethau cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Nodyn 4 (Niferoedd swyddogion a chostau perthnasol).

### (1.8) Grantiau dyledus

Caiff grantiau eu codi i'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr yn ystod y cyfnod pan fydd y gweithgaredd sydd yn creu hawl i'w dderbyn yn cael ei gynnal. Mae gan y Comisiynydd yr hawl i adennill y cyfan neu ran o'r grant os yw'r sawl sy'n cael grant yn torri unrhyw un o'r amodau sydd yn rhan o'r cynnig grant. Credydur unrhyw ad-daliadau i'r cyfrif wrth eu derbyn.

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

### (1.9) Elw a cholled ar gyfradd gyfnewid

Caiff trafodion mewn arian tramor eu trosglwyddo i sterling ar y gyfradd a oedd yn bodoli ar y dyddiad hwnnw. Caiff gwahaniaethau cyfnewid eu cymryd i ystyriaeth yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr. Caiff unrhyw falans a ddelir mewn arian tramor ei drosi ar y raddfa ar 31 Mawrth.

### (1.10) Buddion cyflogai

Cydnabyddir cyflogau, cyfraniadau yswiriant gwladol, a budd-dal ariannol ac anariannol ar gyfer cyflogeion cyfredol yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr wrth i wasanaethau cyflogeion gael eu cyflawni. Polisi'r Comisiynydd yw cyfrif am absenoldebau tymor byr a ddigolledir (gwyliau blynyddol taladwy) fel rhwymedigaeth (cost cronedig) lle disgwylir setlo'r iawndal absenoldeb o fewn deuddeg mis ar ôl diwedd y cyfnod y mae'r cyflogeion yn cyflawni'r gwasanaeth ynddo.

### (1.11) Prydlesi

Mae rhentolion prydlesi gweithredol wedi eu cyflwyno i'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi.

## 2 Gwybodaeth segmentol

Mae gwariant, incwm a llog yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r Comisiynydd yn gweithredu yng Nghymru ac yn ymdrin â materion sy'n effeithio ar y Gymraeg a gallu personau yng Nghymru i fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg. Dim ond un segment sy'n gweithredu ac fe adlewyrchir hyn yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad Sefyllfa Ariannol a'r nodiadau cysylltiedig.

## 3 Grantiau

Roedd y grantiau canlynol yn daladwy o dan Adran 11 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Derbyniwyd cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru ar 28 Chwefror 2013 i dalu'r grant i Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru ar gyfer 2013-14.

	2013-14 £000	2012-13 £000
Estyn Llaw	-	75
Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru	88	97
Canolfan Bedwyr	-	9
	<u>88</u>	<u>181</u>

Ni thalwyd grant i gyrff cyhoeddus yn ystod 2013-14. (2012-13: £9,000).

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## 4 Niferoedd swyddogion a chostau perthnasol

	2013-14 £000	2012-13 £000
Cyflogau	1,855	1,620
Ffioedd aelodau o bwyllgorau (1)	8	8
Costau nawdd cymdeithasol (2)	125	135
Costau pensiwn	348	320
	<hr/>	<hr/>
	2,336	2,083
Costau swyddogion drwy asiantaeth	22	15
	<hr/>	<hr/>
	2,358	2,098
Costau dileu swyddi, ymddeoliad cynnar a diswyddiadau	445	-
	<hr/>	<hr/>
Cyfanswm	<u>2,803</u>	<u>2,098</u>
Niferoedd swyddogion	2013-14	2012-13
Swyddogion a gyflogir	53	45
Aelodau o bwyllgorau (1)	7	7
Swyddogion drwy asiantaeth	1	1
	<hr/>	<hr/>
Nifer cyfartalog (3)	<u>61</u>	<u>53</u>

1 - Mae'r aelodau yn cynnwys 4 aelod o'r Panel Cyngori a 3 aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Talwyd ffioedd o £256 y dydd i'r Cadeirydd a £198 y dydd i aelodau eraill.

2 – Gosodwyd ad-daliad TMS yn erbyn costau nawdd cymdeithasol yn 2013-14 (£26,000), tra gosodwyd yr ad-daliad yn erbyn cyflogau yn 2012-13 (£35,000).

3<sup>1</sup> Nifer cywerth â llawn amser a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn.

Ceir gwybodaeth am fuddiannau cyflog a phensiwn y Comisiynydd a swyddogion hŷn y Comisiynydd yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ar dudalennau 35 i 40.

### (4.1) Pensiynau

Ceir manylion pensiynau yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ar dudalennau 35 i 40.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (*PCSPS*) yn gynllun buddiannau diffiniedig heb ei ariannu ar gyfer nifer o gyflogwyr ac o ganlyniad nid oes modd i Gomisiynydd y Gymraeg adnabod ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Pennodd actiwari'r cynllun werth y cynllun ar 31 Mawrth 2007. Mae gwybodaeth ar gael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: *Civil Superannuation* ([www.civilservice.gov.uk/pensions](http://www.civilservice.gov.uk/pensions)).

Ar gyfer 2013-14, roedd cyfraniadau'r cyflogwr o £337,000 (2012-13 : £309,000) yn daladwy i'r *PCSPS* ar un o bedair graddfa rhwng 16.7% a 24.3% o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr, gan amlaf bob pedair blynedd, yn dilyn prisiant llawn o'r cynllun. Mae graddfeydd y



## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

cyfraniadau yn adlewyrchu buddiannau a gronnwyd yn ystod 2013-14 i'w talu ar ymddeoliad yr aelod, nid y buddiannau a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall swyddogion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, cynllun pensiwn rhanddeiliad â chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau'r cyflogwr o £16,000 (2012-13: £10,000) i un neu fwy o banel o dri o ddarparwyr pensiwn rhanddeiliad penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn ddibynnol ar oedran ac ar raddfa rhwng 3% a 12.5% o gyflog pensiynadwy. Mae'r cyflogwr hefyd yn rhoi cyfraniad cyfatebol o hyd at 3% o gyflog pensiynadwy. Yn ogystal roedd cyfraniadau cyflogwr o £1,000 (2012-13: £1,000), 0.8% o gyflog pensiynadwy, yn daladwy i PCSPS i warchod rhag cost darparu yn y dyfodol am gyfandaliadau buddiant marwolaeth mewn swydd neu ymddeoliad o achos afiechyd.

### (4.2) Cynllun ymadael gwirfoddol

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi gweithredu cynllun ymadael gwirfoddol yn unol â rheolau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil ac fel y'u cymeradwywyd gan Swyddfa'r Cabinet. Mae'r cynllun hwn yn bodloni gofynion cynllunio'r gweithlu ac maent wedi arwain at leihad yn sylfaen costau staffio sefydliad. Cost y cynllun yn 2013-14 oedd £445,000.

Cytunwyd ar nifer o becynnau ymadael cymeradwy yn ystod 2013-14 fel y crynhoir isod:

Band costau'r pecyn ymadael	Nifer y diswyddiadau gorfodol	Nifer yr ymadawiadau gwirfoddol	Cyfanswm y pecynnau ymadael
£25,000 - £50,000	-	6	6
£50,000 - £100,000	-	1	1
£100,000 - £150,000	-	1	1
	-	<b>8</b>	<b>8</b>

Roedd gan swyddogion y caniatwyd iddynt adael yn wirfoddol yn 2013-14 ddyddiadau gadael rhwng Ebrill a Mehefin 2014. Ceir manylion pellach am y costau yn nodyn 12 y cyfrifon.

Talwyd costau'r cynllun ymadael gwirfoddol yn unol â pholisi Comisiynydd y Gymraeg, y cytunwyd arno gydag undeb llafur cydnabyddedig.

### (4.3) Cofrestr rhoddion

Mae gan y Comisiynydd gofrestr rhoddion. Nid oes unrhyw eitem a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei hystyried o bwys materol fel y bo angen ei chynnwys yn y datganiadau ariannol hyn.

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## 5 Gweinyddu

Yr oedd costau gweinyddu yn cynnwys:

	2013-14 £000	2012-13 £000
Llety: Rhent swyddfa	110	126
Llety: Costau eraill	205	165
Darpariaeth ar gyfer addurno ac atgyweirio swyddfeydd	3	167
Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch	122	88
Hyfforddiant a recriwtio	106	126
Cyfreithiol a phroffesiynol	118	126
Technoleg gwybodaeth a thelathrebu	131	90
Cyfathrebu	88	66
Gwasanaethau archwilwyr (tâl yr archwiliad allanol)	16	16
Costau gweinyddu eraill	70	73
	<b>969</b>	<b>1,043</b>

## 6 Gwariant rhaglenni eraill

Mae'r gwariant yn gysylltiedig â nifer y prosiectau yr ymgwymerwyd â hwy. Roedd cyfanswm y gwariant yn ystod y flwyddyn yn £402,000 (2012-13: £164,000), gan gynnwys gwariant ar yr Ymholiad i'r Maes Gofal Iechyd Sylfaenol, Arolwg Defnydd Iaith 2013-15, datblygu *Geiriadur yr Academi* ar-lein ac ymweld â sioeau.

## 7 Asedau sefydlog anghyffyrddadwy

	Trwyddedau meddalwedd £000	Trwyddedau £000	Cyfanswm £000
<b>Cost</b>			
31 Mawrth 2013	135	43	178
Ychwanegiadau	9	-	9
Aiddosbarthiadau	28	-	28
Gwerthiannau	-	-	-
<b>31 Mawrth 2014</b>	<b>172</b>	<b>43</b>	<b>215</b>
<b>Amorteiddiad</b>			
31 Mawrth 2013	101	17	118
Cost am y flwyddyn	24	4	28
Gwerthiannau	-	-	-
<b>31 Mawrth 2014</b>	<b>125</b>	<b>21</b>	<b>146</b>
<b>Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2014</b>	<b>47</b>	<b>22</b>	<b>69</b>
Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2013	34	26	60

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## 8 Eiddo, offer a pheiriannau

	Celli a gosodiadau £000	Offer swyddfa £000	Cyfanswm £000
<b>Cost</b>			
31 Mawrth 2013	616	387	1,003
Ychwanegiadau	3	28	31
Ailddosbarthiadau	-	(28)	(28)
Gwerthiannau	(30)	(18)	(48)
<b>31 Mawrth 2014</b>	<b>589</b>	<b>369</b>	<b>958</b>
<b>Dibrisiant</b>			
31 Mawrth 2013	536	295	831
Cost am y flwyddyn	22	35	57
Gwerthiannau	(30)	(17)	(47)
<b>31 Mawrth 2014</b>	<b>528</b>	<b>313</b>	<b>841</b>
<b>Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2014</b>	<b>61</b>	<b>56</b>	<b>117</b>
Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2013	80	92	172

Mae offer swyddfa yn cynnwys offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Cyllido asedau: Nid oedd gan y Comisiynydd brydlesi cyllidol na chontractau Menter Cyllid Preifat. Eiddo'r Comisiynydd oedd yr holl asedau a ddatgelwyd uchod.

Nid oedd ymrwymïadau cyfalaf cyfreithiol ar 31 Mawrth 2014 (31 Mawrth 2013: £0).

## 9 Derbyniadau masnachol ac asedau cyfredol eraill

	31 Mawrth 2014 £000	31 Mawrth 2013 £000
<b>Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn</b>		
Derbyniadau eraill	1	-
Rhagdaliadau	127	147
	<b>128</b>	<b>147</b>

Nid oes symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn.

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## Dadansoddiad o'r derbyniadau masnachol ac asedau cyfredol eraill

	<b>31 Mawrth 2014 £000</b>	31 Mawrth 2013 £000
Cyrff Llywodraeth Leol	50	51
Corfforaethau Cyhoeddus	1	1
Cyrff y tu allan i Lywodraeth	77	95
	<b>128</b>	<b>147</b>

## 10 Arian parod ac arian cywerth

	<b>31 Mawrth 2014 £000</b>	31 Mawrth 2013 £000
Balans ar 1 Ebrill	834	111
Newidiadau net mewn balans arian parod ac arian cywerth	246	723
<b>Balans ar 31 Mawrth</b>	<b>1,080</b>	<b>834</b>

Cafodd arian parod y Comisiynydd ei gadw mewn banc masnachol ar ddiwedd y flwyddyn. Ni ddaliwyd unrhyw arian gan Dâl-feistr Cyffredinol EM ar ddiwedd y flwyddyn.

## 11 Taliadau masnachol a rhwymedigaethau cyfredol eraill

	<b>31 Mawrth 2014 £000</b>	31 Mawrth 2013 £000
<b>Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn</b>		
Taliadau masnachol	38	11
Croniadau	130	181
	<b>168</b>	<b>192</b>

Nid oes symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn.

## Dadansoddiad o'r taliadau masnachol a rhwymedigaethau cyfredol eraill

	<b>31 Mawrth 2014 £000</b>	31 Mawrth 2013 £000
Cyrff Llywodraeth Ganolog	-	11
Corfforaethau Cyhoeddus	16	16
Cyrff y tu allan i Lywodraeth	152	165
	<b>168</b>	<b>192</b>

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## 12 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a phридиannau

	Dadfeiliadau ac ailaddurno £000	Ymadawiadau gwirfoddol £000	Cyfanswm £000
Darpariaeth ar 31 Mawrth 2013	167	-	167
Cynnydd mewn darpariaeth	18	445	463
Darpariaeth a ddefnyddiwyd/rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn	(15)	-	(15)
Darpariaeth ar 31 Mawrth 2014	170	445	615

Defnyddiwyd cyfradd ddisgowntio, yn glir o CPI, Trysorlys EM ym mis Tachwedd 2013, sef -1.47% mewn termau real ar gyfer y dadfeiliadau (2012-13: -1.07%). Defnyddiwyd cyfradd ddisgownt o 1.8% ar gyfer ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau.

Gwneir darpariaethau ar gyfer ail-addurno yn ystod tymor y brydles ac ar gyfer dadfeilio, er mwyn dychwelyd yr adeiladau i'w cyflwr gwreiddiol ar derfyn y brydles. Gall yr ymrwymadau hyn newid yn sgil gwybodaeth a digwyddiadau yn y dyfodol a allai achosi newid i'r symiau a ddarparwyd ar sail yr amcangyfrif gorau, ar ddiwedd y cyfnod ariannol. Mae'r darpariaethau hyn wedi eu hadolygu a'u diweddarau yn ystod y flwyddyn fel sy'n ofynnol dan IAS 37.

Mae'r darpariaethau ar gyfer ymadawiadau gwirfoddol yn cyfeirio at rwymedigaeth Comisiynydd y Gymraeg yn y dyfodol mewn perthynas â swyddogion sy'n gadael dan y cynllun ymadael gwirfoddol.

## Dadansoddiad o amseru disgwyliadwy'r rhwymedigaethau

	Dadfeiliadau ac ailaddurno £000	Ymadawiadau gwirfoddol £000	Cyfanswm £000
O fewn blwyddyn	5	445	450
Rhwng dwy a phum mlynedd	133	-	133
Ar ôl pum mlynedd	32	-	32
	170	445	615

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## 13 Ymrwymadau o dan brydlesi

Mae cyfanswm y taliadau lleiafswm o dan brydlesi gweithredol yn cael ei ddangos yn y tabl isod ar gyfer pob cyfnod.

Mae'r ymrwymadau o dan brydlesi gweithredol yn cynnwys:	<b>31 Mawrth 2014 £000</b>	31 Mawrth 2013 £000
<b>Adeiladau</b>		
O fewn blwyddyn	115	106
Rhwng dwy a phum mlynedd	403	392
Ar ôl pum mlynedd	105	132
	<b>623</b>	<b>630</b>
	<b>31 Mawrth 2014 £000</b>	31 Mawrth 2013 £000
<b>Arall</b>		
O fewn blwyddyn	7	7
Rhwng dwy a phum mlynedd	4	11
Ar ôl pum mlynedd	-	-
	<b>11</b>	<b>18</b>

Nid yw'r Comisiynydd wedi dechrau ymwneud ag unrhyw brydlesi cyllidol, unrhyw ymrwymadau o dan contract PFI, nac unrhyw gontractau nad oedd modd eu canslo ag ymrwymadau cyllidol.

## 14 Rhwymedigaethau amodol a ddatgelwyd o dan IAS 37

Nid oedd rhwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2014 (31 Mawrth 2013: £0).

## 15 Offerynnau cyllidol

Oherwydd natur gweithgareddau'r Comisiynydd a'r modd y caiff y gweithrediadau eu hariannu, nid yw'r Comisiynydd yn agored i lefel uchel o risg ariannol.

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

### 16 Trafodion gyda phartion cysylltiedig

Yn ystod 2013-14 derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg £4.1m gan Weinidogion Cymru (2012-13: £4.1m).

Cytunwyd ar Femorandwm o Gydweithio, dyddiedig 30 Tachwedd 2012, rhwng y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru. Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig.

Ni chafwyd trafodion materol berthnasol yn ystod y flwyddyn â sefydliadau lle roedd y Comisiynydd, y cyfarwyddwyr neu'r uwch swyddogion, nac unrhyw aelodau o'u teuluoedd, mewn swyddi dylanwadol.

### 17 Digwyddiadau ers diwedd y flwyddyn ariannol

Ni chafwyd digwyddiadau ers dyddiad y datganiad sefyllfa ariannol sy'n effeithio ar ddealltwriaeth y datganiadau ariannol hyn.

### 18 Archwilwyr

Archwiliwyd cyfrifon Comisiynydd y Gymraeg gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â gofynion Atodlen 1, Paragraff 19 (2) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr endid yn ymwybodol ohonynt, ac mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam y dylai ei gymryd i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr yr endid yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.



# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## Atodiad

	<b>Tudalen</b>
Cwynion statudol – Deddf yr Iaith Gymraeg 1993	68
Cwynion statudol – Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011	90
Cwynion anstatudol	91

# Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

## Cwynion statudol - Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Dyddiad derbyn	Sefydliad	Sector	Categori'r gŵyn	Statws y gŵyn	Cynamserol	Caewyd ar unwaith	Caewyd oherwydd diffyg tystiolaeth	Ystyriwyd ymhellach	Cynhaliwyd ymchwiliad statudol i'r gŵyn	Cyhoeddwyd argymhellion statudol	Dyddiad cau
02/04/2013	Cyllid a Thollau EM	Gwas neu asiant i'r Goron	Ffurflenni	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Gwas neu asiant i'r Goron	✓						10/05/2013
03/04/2013	Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM	Gwas neu asiant i'r Goron	Gohebiaeth	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Gwas neu asiant i'r Goron				✓			10/05/2013
04/04/2013	Cyngor Dinas Casnewydd	Cyhoeddus	Gwasanaeth ffôn	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						10/05/2013
04/04/2013	Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol	Gwas neu asiant i'r Goron	Gohebiaeth	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Gwas neu asiant i'r Goron					✓	✓	06/03/2014
05/04/2013	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Cyhoeddus	Arwyddion	Cwyn o dan adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus			✓				14/06/2013
06/04/2013	Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	Gwas neu asiant i'r Goron	Cyhoeddiadau	Cwyn o dan adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Gwas neu asiant i'r Goron				✓			12/09/2013
07/04/2013	Cyngor Sir Ceredigion	Cyhoeddus	Ffurflenni	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						10/05/2013
09/04/2013	Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau	Gwas neu asiant i'r Goron	Gwefannau	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Gwas neu asiant i'r Goron	✓						10/05/2013
09/04/2013	Heddlu Gogledd Cymru	Cyhoeddus	Gwasanaeth ffôn	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						10/05/2013
10/04/2013	Grŵp y Post Brenhinol	Preifat dan ddyletswydd statudol	Gwefannau	Cwyn o dan adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus				✓			12/09/2013
11/04/2013	Cyngor Dinas Casnewydd	Cyhoeddus	Arwyddion	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						10/05/2013

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

Dyddiad derbyn	Sefydliad	Sector	Categori'r gŵyn	Statws y gŵyn	Cynamserol	Caewyd ar unwaith	Caewyd oherwydd diffyg tystiolaeth	Ystyriwyd ymhellach	Cynhaliwyd ymchwil i'r gŵyn statudol i'r gŵyn	Cyhoeddwyd argymhellion statudol	Dyddiad cau
11/04/2013	Dŵr Cymru	Preifat dan ddyletswydd statudol	Gohebiaeth	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						10/05/2013
15/04/2013	Cyngor Dinas a Sir Abertawe	Cyhoeddus	Arwyddion	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						10/05/2013
16/04/2013	Career Choices Dewis Gyrfa	Cyhoeddus	Gwasanaeth ffôn	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						10/05/2013
17/04/2013	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Cyhoeddus	Cyfarfodydd wyneb yn wyneb	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus				✓			22/10/2013
17/04/2013	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	Cyhoeddus	Cyfarfodydd wyneb yn wyneb	Cwyn o dan adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus				✓			03/10/2013
19/04/2013	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Cyhoeddus	Cyhoeddiadau	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						14/06/2013
19/04/2013	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Cyhoeddus	Cyhoeddiadau	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						10/05/2013
21/04/2013	Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM	Gwas neu asiant i'r Goron	Gohebiaeth	Cwyn o dan adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Gwas neu asiant i'r Goron				✓			12/09/2013
22/04/2013	Gweinyddiaeth Cyfiawnder	Gwas neu asiant i'r Goron	Gwefannau	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Gwas neu asiant i'r Goron	✓						14/06/2013
24/04/2013	Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau	Gwas neu asiant i'r Goron	Cyhoeddiadau	Cwyn o dan adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Gwas neu asiant i'r Goron				✓			24/09/2013
25/04/2013	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Cyhoeddus	Cyfarfodydd wyneb yn wyneb	Cwyn o dan adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus				✓			28/11/2013
29/04/2013	Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol	Gwas neu asiant i'r Goron	Gohebiaeth	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Gwas neu asiant i'r Goron					✓	✓	06/03/2014

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

Dyddiad derbyn	Sefydliad	Sector	Categori'r gŵyn	Statws y gŵyn	Cynamserol	Caewyd ar unwaith	Caewyd oherwydd diffyg tystiolaeth	Ystyriwyd ymhellach	Cynhaliwyd ymchwil statudol i'r gŵyn	Cyhoeddwyd argymhellion statudol	Dyddiad cau
01/05/2013	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Cyhoeddus	Gohebiaeth	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						10/05/2013
03/05/2013	Heddlu Dyfed Powys	Cyhoeddus	Gohebiaeth	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus				✓			14/06/2013
04/05/2013	Llywodraeth Cymru	Gwas neu asiant i'r Goron	Cyfarfodydd wyneb yn wyneb	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Gwas neu asiant i'r Goron			✓				12/09/2013
07/05/2013	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Cyhoeddus	Cyfarfodydd wyneb yn wyneb	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus				✓			22/11/2013
08/05/2013	Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM	Gwas neu asiant i'r Goron	Gohebiaeth	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Gwas neu asiant i'r Goron		✓					14/06/2013
09/05/2013	Adran Gwaith a Phensiynau	Gwas neu asiant i'r Goron	Gohebiaeth	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Gwas neu asiant i'r Goron	✓						14/06/2013
09/05/2013	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Cyhoeddus	Gohebiaeth	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						14/06/2013
09/05/2013	Coleg Gŵyr Abertawe	Cyhoeddus	Arall	Cwyn o dan adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus				✓			Heb ei chau
10/05/2013	Cyngor Dinas Casnewydd	Cyhoeddus	Arall	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						14/06/2013
13/05/2013	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Cyhoeddus	Gwefannau	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						14/06/2013
14/05/2013	Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus	Gwas neu asiant i'r Goron	Ffurflenni	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Gwas neu asiant i'r Goron	✓						14/06/2013
16/05/2013	Cyngor Dinas Casnewydd	Cyhoeddus	Arwyddion	Cwyn o dan adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus				✓			14/10/2013

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

Dyddiad derbyn	Sefydliad	Sector	Categori'r gŵyn	Statws y gŵyn	Cynamserol	Caewyd ar unwaith	Caewyd oherwydd diffyg tystiolaeth	Ystyriwyd ymhellach	Cynhaliwyd ymchwil statudol i'r gŵyn	Cyhoeddwyd argymhellion statudol	Dyddiad cau
20/05/2013	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Cyhoeddus	Arwyddion	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						14/06/2013
20/05/2013	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Cyhoeddus	Cyhoeddiadau	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						14/06/2013
20/05/2013	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Cyhoeddus	Cyhoeddiadau	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						14/06/2013
20/05/2013	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Cyhoeddus	Gwefannau	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						14/06/2013
20/05/2013	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Cyhoeddus	Gwefannau	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						26/07/2013
21/05/2013	Llywodraeth Cymru	Gwas neu asiant i'r Goron	Ffurflenni	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Gwas neu asiant i'r Goron	✓						14/06/2013
23/05/2013	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Cyhoeddus	Cyhoeddiadau	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus				✓			22/11/2013
24/05/2013	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Cyhoeddus	Gwefannau	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						14/06/2013
28/05/2013	Gweinyddiaeth Cyfiawnder	Gwas neu asiant i'r Goron	Cyhoeddiadau	Cwyn o dan adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Gwas neu asiant i'r Goron				✓			01/10/2013
29/05/2013	Asiantaeth Trwyddedu Gyrrwyr a Cherbydau	Gwas neu asiant i'r Goron	Gwefannau	Cwyn o dan adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Gwas neu asiant i'r Goron				✓			28/11/2013
30/05/2013	Cyngor Dinas a Sir Abertawe	Cyhoeddus	Arwyddion	Cwyn o dan adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus				✓			03/10/2013
31/05/2013	Adran Gwaith a Phensiynau	Gwas neu asiant i'r Goron	Gwasanaeth ffôn	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Gwas neu asiant i'r Goron	✓						10/07/2013

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

Dyddiad derbyn	Sefydliad	Sector	Categori'r gŵyn	Statws y gŵyn	Cynamserol	Caewyd ar unwaith	Caewyd oherwydd diffyg tystiolaeth	Ystyriwyd ymhellach	Cynhaliwyd ymchwil statudol i'r gŵyn	Cyhoeddwyd argymhellion statudol	Dyddiad cau
31/05/2013	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyhoeddus	Gwasanaeth ffôn	Cwyn o dan adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						14/06/2013
31/05/2013	Heddlu Dyfed Powys	Cyhoeddus	Gwasanaeth ffôn	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						14/06/2013
04/06/2013	Swyddfa Basbort EM	Gwas neu asiant i'r Goron	Gwefannau	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Gwas neu asiant i'r Goron	✓						14/06/2013
12/06/2013	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Cyhoeddus	Gwefannau	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						18/07/2013
13/06/2013	Cyngor Sir Ddinbych	Cyhoeddus	Ffurflenni	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						27/06/2013
13/06/2013	Swyddfa Basbort EM	Gwas neu asiant i'r Goron	Gwasanaeth ffôn	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Gwas neu asiant i'r Goron				✓			24/09/2013
14/06/2013	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Cyhoeddus	Cyfarfodydd wyneb yn wyneb	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						23/07/2013
16/06/2013	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Cyhoeddus	Arwyddion	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						18/07/2013
17/06/2013	Tŷr Cwmnïau	Gwas neu asiant i'r Goron	Gwefannau	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Gwas neu asiant i'r Goron	✓						18/07/2013
19/06/2013	Llywodraeth Cymru	Gwas neu asiant i'r Goron	Gohebiaeth	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Gwas neu asiant i'r Goron	✓						15/08/2013
21/06/2013	Chwaraeon Cymru	Cyhoeddus	Gohebiaeth	Cwyn o dan adran 18 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus				✓			03/10/2013
24/06/2013	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Cyhoeddus	Gohebiaeth	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						18/07/2013

## Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2013-14

Dyddiad derbyn	Sefydliad	Sector	Categori'r gŵyn	Statws y gŵyn	Cynamserol	Caewyd ar unwaith	Caewyd oherwydd diffyg tystiolaeth	Ystyriwyd ymhellach	Cynhaliwyd ymchwiliad statudol i'r gŵyn	Cyhoeddwyd argymhellion statudol	Dyddiad cau
24/06/2013	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	Cyhoeddus	Arwyddion	Cwyn fel arall o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 - Corff cyhoeddus	✓						18/07/2013
